TAG UG/SAFON UWCH

TAG UG/SAFON UWCH CBAC

# CELF A DYLUNIO

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU



# CANLLAWIAU ATHRAWON

Addysgu o 2015

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

# TAG Celf a Dylunio


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagarweiniad** | **2** |
| **Cefnogi addysgu a dysgu Celf a Dylunio da** | 3 |
| **Beth yw'r gwahaniaethau rhwng yr hen fanyleb a'r fanyleb newydd?** | **5** |
| **Beth sydd wrth wraidd y fanyleb newydd a beth yw ei rhannau mwyaf hanfodol?** | **7** |
| **Mynd i'r afael â'r Amcanion Asesu** | 8 |
| **Beth yw'r berthynas rhwng yr Amcanion Asesu a phedair elfen hanfodol y fanyleb?** | **16** |
| **Rhestr Wirio'r Amcanion Asesu i Athrawon** | 17 |
| **Rhestr Wirio'r Amcanion Asesu i Ddysgwyr** | **17** |
| **Arweiniad UG/Safon Uwch ar gyfer y Cynnwys a Awgrymir i bob un o'r saith teitl sydd ar gael** | 17 |
| **Cynlluniau Marcio ar gyfer pob uned** | **18** |
| **Crynodeb o Asesu Celf a Dylunio UG a Safon Uwch** | 18 |
| **Beth yw nodweddion strwythur newydd y cwrs a'r sail rhesymol iddynt?** | **18** |
| **Beth yw cynnwys cwrs sylfaenol yr Unedau UG a Safon Uwch?** | 20 |
| **Ymholiad Creadigol Personol UG** | **20** |
| **Uned 2 Safon Uwch: Ymchwiliad Personol** | 21 |
| **Uned 3 Safon Uwch: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol** | **21** |
| **Sut dylid cynnal Uned 3 (Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol)?** | 23 |
| **Pa newidiadau eraill a gyflwynwyd yn y fanyleb newydd?** | **25** |
| **Lluniadu** | 25 |
| **Ysgrifennu estynedig** | **27** |
| **Cwestiynau cyffredin** | 32 |

## Rhagarweiniad

Prif nod y Canllawiau i Athrawon yw rhoi cefnogaeth i athrawon wrth gyflwyno manyleb newydd **UG/Safon Uwch Celf a Dylunio CBAC** a rhoi arweiniad o ran gofynion y fanyleb a'r broses asesu.

**Nid bod yn gyfeirlyfr cynhwysfawr yw bwriad** y canllawiau, ond yn hytrach bod yn gefnogaeth i athrawon ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau myfyrwyr yn eu sefydliadau penodol.

Diben y canllaw hwn yw cynnig cymorth pellach i athrawon a fydd yn llunio cyrsiau sy'n cyd-fynd â'r fanyleb newydd ar gyfer addysgu UG/Safon Uwch Celf a Dylunio o fis Medi 2015.

Un o lwyddiannau rhagorol addysgu celf, crefft a dylunio yn y DU yw bod maes hwn y cwricwlwm wedi'i nodweddu gan ddulliau addysgu creadigol ac amrywiol. O ganlyniad mae gan gyrff dyfarnu fel CBAC gyfrifoldeb i gefnogi ac annog yn gadarnhaol y fath amrywiaeth trwy ddarparu fframweithiau hyblyg yn y fanyleb fel bod addysgu a dysgu bywiog, arloesol yn gallu ffynnu. Mae o'r pwys mwyaf bod systemau asesu mewn celf a dylunio yn hyrwyddo dulliau creadigol yn weithredol ac nad ydynt yn eu cyfyngu.

Mae manylebau blaenorol ar gyfer celf a dylunio, yn enwedig y rhai diweddaraf, wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i ddatblygiad cadarn y maes pwnc. Mae'r fanyleb newydd wedi adeiladu ar y cryfderau hyn, gan ychwanegu nodweddion mireinio a nodwyd trwy brofiad o addysgu ac asesu'r fanyleb flaenorol ynghyd â sylwadau beirniadol defnyddiol gan amryw o randdeiliaid.

Ynghyd â'r datblygiadau hyn sydd â'r nod o wella strwythur y fanyleb, mae'n hanfodol bod asesu celf a dylunio'n parhau i fod yn drylwyr, yn ddilys ac yn ddibynadwy. Mae hyn er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu mesur yn gywir, eu cymhwyso'n gyson ac yn ennill parch cyffredinol. Er mwyn diwallu gofynion o'r fath, mae'n hanfodol bwysig bod y meini prawf ar gyfer asesu'n cael eu gwneud yn hollol eglur fel y gall pawb sy'n ymwneud â'r cymwysterau UG a Safon Uwch newydd eu deall yn hawdd.

Mae cryn dipyn o ddeunydd cyfeirio defnyddiol eisoes wedi'i gynhyrchu er mwyn gwneud i'r fanyleb newydd fod mor hygyrch ag sy'n bosibl i ddysgwyr, i rieni, i athrawon, i aseswyr ac i eraill sy'n ymddiddori mewn cymwysterau celf a dylunio. Mae'r fanyleb UG a Safon Uwch yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth ddefnyddiol a dylid darllen hon, ynghyd â'r deunyddiau asesu enghreifftiol sydd ar gael ar wefan CBAC, ar y cyd â'r canllawiau hyn. Yn ogystal, mae amrediad o wybodaeth a deunydd enghreifftiol ar wefan CBAC a bocsgolau yn creu adnodd addysgol sylweddol a fydd yn parhau i gael ei ddatblygu.

Bydd gweld peth o'r deunydd enghreifftiol a'r deunydd atodol arall sy'n gysylltiedig â'r canllaw hwn yn dangos bod llawer o ddulliau gwahanol o gyflwyno cyrsiau llwyddiannus ar draws yr amrediad eang o deitlau sydd o fewn y fanyleb.

Mae llawer o ddulliau gwahanol mewn enghreifftiau ar draws y fanyleb mewn ystod o deitlau:

[UG Uned 1 - Ymholiad Creadigol Personol]
[U2 Uned 2 - Ymchwiliad Personol]
[U2 Uned 3 - Aseiniad wedi'i osod yn allanol]

## Cefnogi addysgu a dysgu Celf a Dylunio da

Mae'n bwysig bod athrawon yn cael cyfle i ddod i ddeall yr egwyddorion sy'n sail i ddylunio'r system asesu a bwriad y dylunwyr wrth ei llunio, a hynny'n eglur ac yn gadarn. Yn y bôn, datblygwyd y fanyleb newydd er mwyn hwyluso addysgu a dysgu celf a dylunio da mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft:

**UG**

- Mae strwythur y fanyleb yn golygu bod gan ddysgwyr gyfleoedd, ar y dechrau, i ddatblygu sylfaen eang o sgiliau beirniadol, ymarferol a damcaniaethol gyda dealltwriaeth gyfannol o amrediad o arferion a chyd-destunau yn y meysydd celf, crefft a dylunio. Mae hyn yn rhoi sail gadarn ar gyfer dilyniant i lywio'n fwy hyderus trwy deithiau creadigol y dysgwyr o ganol y cwrs hyd at y diwedd.

- Yr un uned Ymholiad Creadigol Personol sy'n galluogi dysgwyr i ymgymryd ag ymchwiliad mawr beirniadol, ymarferol a damcaniaethol yn seiliedig ar ddeunydd pwnc sydd ag arwyddocâd personol. O wneud hynny, dylai gynhyrchu tystiolaeth ddilys ar gyfer asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau trwy ddull integredig a chyfannol sy'n nodweddu dysgu ac addysgu da mewn celf a dylunio. Yn ogystal, dylai deunydd pwnc yr ymchwiliad fod ag arwyddocâd personol i bob dysgwr, ac felly bydd yn gwneud i'r astudiaeth fod yn fwy perthnasol ac yn denu eu diddordeb a'u hymroddiad.

- Elfennau beirniadol, ymarferol a damcaniaethol yr Ymholiad Creadigol Personol y dylid eu hintegreiddio'n bwrpasol fel eu bod i gyd yn cefnogi'r profiad addysgu a dysgu cyfan. Cânt eu hasesu gyda'i gilydd trwy'r Amcanion Asesu, gan roi gwerth cyfartal ar brosesau creadigol a'u canlyniadau.

**Safon Uwch**

Mae'n cynnwys un uned UG a dwy uned bellach: Uned 2 Ymchwiliad Personol ac Uned 3 Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

- Mae strwythur y fanyleb yn golygu bod gan ddysgwyr gyfleoedd pellach, yn enwedig yn rhan gynharaf Uned 2: Ymchwiliad Personol, i ddatblygu ac estyn sylfaen gadarn o sgiliau beirniadol, ymarferol a damcaniaethol gyda dealltwriaeth dyfnach o ystod o arferion a chyd-destunau celf, crefft a dylunio. Mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer dilyniant i fwy o arbenigedd a chyflawniad yn ystod rhan olaf eu gwaith cwrs ac wrth ymateb i Uned 3: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

- Mae'r ddwy uned Safon Uwch yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd wedi'u cymhwyso mewn cyd-destunau gwahanol ond sydd yr un mor berthnasol i'r ddwy uned. Mae hyn yn hyrwyddo dull integredig a chyfannol tuag at agweddau amrywiol ar addysgu celf a dylunio, fel addysgu sgiliau beirniadol yn rhan o Ymchwiliad Personol y gall y dysgwr eu mireinio ymhellach wrth ymgymryd ag astudiaeth gyd-destunol ar gyfer Uned 3: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

- Mae Uned 2: Ymchwiliad Personol yn cynnwys dwy ran gyfansoddol integredig a asesir gyda'i gilydd trwy'r Amcanion Asesu. Rhaid i'r elfen ysgrifenedig ymwneud yn amlwg â gwaith ymarferol a damcaniaethol fel bod y profiadau dysgu'n cefnogi ei gilydd. Yn ogystal, dylai deunydd pwnc yr ymchwiliad ganolbwyntio ar gyd-destunau a phrofiadau penodol sydd ag arwyddocâd personol i'r dysgwr, felly bydd hynny'n gwneud i'r astudiaeth fod yn fwy perthnasol ac yn hybu ymroddiad dyfnach.

- Mae Uned 3: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol hefyd yn cynnwys dwy ran gyfansoddol integredig, sef astudiaethau ategol/gwaith paratoi wedi'u dilyn gan gyfnod o 15 awr o waith dwys a manwl, a’r ddau’n cael eu hasesu gyda'i gilydd. Mae hyn yn rhoi gwerth cyfartal ar brosesau creadigol a'u canlyniadau.

Er mwyn crynhoi'r rhagarweiniad hwn a'i gysylltu â'r hyn sy'n dilyn, gallai fod yn ddefnyddiol nodi bod y fanyleb a'r deunyddiau atodol newydd yn:

- cynnig profiadau heriol, sy'n cyflawni dyheadau pob dysgwr – pa bynnag lwybr astudio y mae'n dewis ei ddilyn;
- ystyried yn briodol y rhyngberthynas agos rhwng prosesau addysgu a dysgu'r ddau gymhwyster fel bod y pontio o UG i Safon Uwch yn brofiad cadarnhaol i bob dysgwr sy'n dewis dilyn y llwybr hwn;
- ymgorffori nodweddion gorau'r fanyleb bresennol ac adeiladu arnynt;
- mireinio'r agweddau hynny yr oedd angen eu gwella neu roi mwy o bwyslais arnynt, fel y'u nodwyd gan y rhai sydd wedi addysgu ac asesu canlyniadau'r cyrsiau cyfredol;
- cefnogi athrawon wrth iddynt barhau i werthuso eu dulliau cyfredol, a hynny trwy ddarparu cyfeiriadau deallusol ac ymarferol hawdd eu defnyddio i adolygu, gwerthuso a gwella'r addysgu a'r dysgu;
- ceisio codi hyd yn oed ymhellach y safonau uchel a gyflawnwyd eisoes yn y sector hwn o'r cwricwlwm creadigol sy'n dod yn fwyfwy pwysig.

Mae'r fanyleb hefyd yn cynnig fframwaith i ddysgwyr ymchwilio i faterion moesol, moesegol, cymdeithasol, diwylliannol a chyfoes a'u perthynas â maes celf a dylunio ac â'r cwricwlwm ehangach. Er enghraifft, wrth roi sylw i Amcan Asesu AA1, gallai'r dysgwyr ystyried y ffyrdd y mae ffactorau moesegol, cymdeithasol a diwylliannol yn dylanwadu ar eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, gan eu galluogi i osod eu hastudiaeth mewn cyd-destun sy'n briodol o eang.

## Beth yw'r gwahaniaethau rhwng yr hen fanyleb a'r fanyleb newydd?

Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg cryno o'r newidiadau a ymgorfforwyd yn y fanyleb newydd. Mae rhai'n cynrychioli nodweddion mireinio a gyflwynwyd gan CBAC er mwyn ymateb i adborth ar y fanyleb gyfredol gan athrawon a rhanddeiliaid eraill.

| Beth sydd wedi newid? | Beth sydd yr un fath? |
|---|---|
| **Er mwyn cydnabod gofynion cynyddol Safon Uwch, mae pwysoli UG mewn perthynas â Safon Uwch wedi'i addasu i 40% UG a 60% Safon Uwch.** | Mae pwysoli'r unedau Safon Uwch wedi'i gadw:<br>36% Ymchwiliad Personol;<br>24% Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. |
| **Mae UG bellach yn cynnwys un uned gwaith cwrs. Mae dileu'r Aseiniad Dan Oruchwyliaeth yn rhoi mwy o amser i ddysgwyr gaffael sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn rhan gynharaf y cwrs. Mae hyn hefyd yn lleihau'r baich asesu i athrawon.** | Lluniwyd y Safon Uwch llawn i'w gymryd dros 2 flynedd a'r UG dros flwyddyn. Fodd bynnag, gellir cyflwyno UG a Safon Uwch mewn blwyddyn, ond i ofynion y cwrs gael eu bodloni. |
| **Mae un uned UG yn rhoi llai o faich asesu. Nid oes Aseiniad Dan Oruchwyliaeth bellach ar gyfer UG, dim ond un uned gwaith cwrs, fel bod llawer mwy o amser i arbrofi a meithrin sgiliau pwysig.** | Os yw hi'n well gan ganolfannau i'r dysgwyr ymgymryd ag aseiniad wedi'i osod hefyd yn rhan o'u cwrs UG, gallant lunio eu haseiniad eu hunain sydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol ag astudiaeth gwaith cwrs. Gall hwn fod yn rhan o bortffolio Ymholiad Creadigol Personol y dysgwr. |
| **Mae <u>15 awr</u> o amser dan oruchwyliaeth ar Safon Uwch ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (12 awr sydd yn y fanyleb gyfredol).** | Mae strwythur presennol Aseiniadau Dan Oruchwyliaeth Safon Uwch, sy'n cynnwys ysgogiadau ysgrifenedig a gweledol yn ogystal â delwedd symudol, wedi'i gadw fel bod modd ymagweddu'n eang a hyblyg. |
| **Diweddarwyd y cynnwys pwnc i adlewyrchu arferion cyfredol ac i gyd-fynd â chyrsiau israddedig. Mae meini prawf asesu UG a Safon Uwch bellach wedi'u gwahaniaethu.** | Er bod y cynnwys pwnc wedi'i ddiweddaru er mwyn ymateb i adborth gan randdeiliaid, bydd yn dal i fod yn gysurlon o gyfarwydd. Gwnaed y newidiadau i adlewyrchu'r arferion a'r iaith greadigol gyfredol yn well. |
| **Ni wneir defnydd o'r term 'arnodi'; 'teitl' yw'r term a ddefnyddir bellach. Mae 'Ffotograffiaeth' yn disodli 'Ffotograffiaeth: Cyfryngau Lens a Golau Seiliedig'.** | Mae saith opsiwn teitl yn dal i gynnig cyfleoedd i adrannau lunio cyrsiau sy'n addas i'w hoffer, eu hadnoddau, eu harbenigedd a'u cyllidebau. |
| **Rhaid i'r Ymchwiliad Personol gynnwys 'elfen ysgrifenedig' sydd 'ar ffurf ymateb estynedig sy'n lleiafswm o 1000 gair'. Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion Addysg Uwch ac mae'n golygu mewn gwirionedd bod rhaid cyflwyno rhyddiaith ddi-dor yn ogystal ag unrhyw bytiau byr o anodi ysgrifenedig mewn llyfrau braslunio neu ar fformatau eraill.** | Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, dylid annog cynnwys anodi ond ni fyddant yn rhan o gyfrif geiriau'r lleiafswm o 1000 gair. |

| | |
|---|---|
| **Yn y fanyleb hon lluniwyd yr elfen ysgrifenedig er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn integreiddio'u gwaith ysgrifenedig â'u hymchwiliad, gan ei wneud yn fwy perthnasol i'r prosesau creadigol, ymchwiliol y maen nhw'n eu dilyn.** | Rhaid i'r dadansoddiad beirniadol a chyd-destunol ysgrifenedig estynedig (lleiafswm o 1000 gair) fod wedi'i integreiddio â'r gwaith ymarferol yn yr Ymchwiliad Personol, yn unol â'r fanyleb gyfredol. |
| **Mae'r fanyleb yn asesu elfen ysgrifenedig orfodol yr Ymchwiliad Personol mewn ffordd gyfannol (cyfeirier at adran 2.3). Gall ysgrifennu estynedig fod yn dystiolaeth ar gyfer unrhyw un o'r pedwar Amcan Asesu.** | Asesir yr elfen ysgrifenedig yn yr Ymchwiliad Personol yn gyfannol yn unol â'r fanyleb gyfredol. Mae'r elfen ysgrifenedig yn dilyn dull yr Ymchwiliad Personol cyfredol i raddau helaeth iawn. |
| **Yn y cynnwys pwnc newydd, pwysleisir pwysigrwydd lluniadu yn ei ystyr ehangaf, fel dull cofnodi ac fel ffordd o archwilio iaith weledol.** | Yn unol â'r fanyleb gyfredol, anogir lluniadu ac fe'i pwysleisir fel proses ddylunio a/neu modd sylfaenol o iaith weledol, nad asesir ar wahân. |
| **Mae strwythur y cwrs yn rhoi cyfle i adeiladu sgiliau pwysig, arbrofi, datblygu ac archwilio syniadau, defnyddiau, technegau a phrosesau ar UG a Safon Uwch.** | Gall strwythurau cwrs UG a dwy uned Safon Uwch adeiladu ar ddulliau llwyddiannus presennol. |
| **Uchafswm o 160 marc ar gyfer yr Ymholiad Creadigol Personol**<br>**Uchafswm o 160 marc ar gyfer yr Ymchwiliad Personol**<br>**Uchafswm o 100 marc ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol** | Yr un system raddio, A* i E ar Safon Uwch, A i E ar UG. |
| **Mân newidiadau i'r Amcanion Asesu.** | Pedwar Amcan Asesu cyfarwydd gyda phwysoli cyfartal, yn unol â'r fanyleb gyfredol. |
| **Dyddiad cau newydd ar gyfer cyflwyno marciau wedi'u hasesu'n fewnol i CBAC, sef erbyn 31 Mai erbyn hyn.** | Bydd y gwaith gweinyddu a'r trefniadau ar gyfer cofrestru, safoni, dyfarnu a'r canlyniadau yr un fath, yn unol â'r fanyleb gyfredol. |
| **Bydd modd ailsefyll yn ystod oes y cymhwyster ond ar gyfer y cymhwyster cyfan yn unig (y ddwy uned ar Safon Uwch/un ar UG).** | |
| **Disodlwyd 'datganiadau bwriad' a dogfennau 'ymestyn a herio'. Mae Datganiad y Dysgwr ar gyfer pob uned yn rhoi cyfle i ystyried ac esbonio bwriadau o dan y penawdau 'Prif Syniad', 'Cynllun', 'Cyd-destun' a 'Myfyrio'.** | Yn unol â'r unedau presennol, mae angen Datganiad y Dysgwr ar gyfer pob uned er mwyn cyfleu bwriadau. |

Dylai canolfannau sy'n ystyried cyflwyno'r UG/Safon Uwch lawn dros flwyddyn yn 2015/16 nodi na fydd y Safon Uwch newydd yn cael ei dyfarnu tan 2017. Awgrymir, felly, y dylent gadw at y Safon Uwch gyfredol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16.

## Beth sydd wrth wraidd y fanyleb newydd a beth yw ei rhannau mwyaf hanfodol?

Wrth wraidd y fanyleb newydd mae'r pedwar Amcan Asesu sydd wedi’u galw’n AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol, AA2 Gwneud creadigol, AA3 Cofnodi myfyriol ac AA4 Cyflwyno personol er mwyn nodi eu prif ddiben. Er mai ychydig o linellau o destun sydd ym mhob un o'r Amcanion Asesu hyn, maen nhw'n cynnwys cryn dipyn o ystyr. Ychydig yn unig o wahaniaeth sydd rhyngddynt a'r Amcanion Asesu CBAC blaenorol, sy’n awgrymu iddynt sefyll prawf amser. Mae hi bellach yn werth ailystyried yn fanwl y dyfnder a'r ehangder ystyr sydd ynddynt, gan mai dyma fydd y sylfaen y bydd rhaid datblygu addysgu, dysgu, gwerthuso ffurfiannol a chrynodol ac asesu arni. Mae'r Amcanion Asesu'n ffurfio craidd elfennau canolog y fanyleb newydd sef:

- Rhestr Wirio'r Amcanion Asesu i Athrawon;
- Rhestr Wirio'r Amcanion Asesu i Ddysgwyr;
- Arweiniad UG/Safon Uwch ar gyfer y Cynnwys a Awgrymir ar gyfer pob un o'r 7 teitl;
- Cynlluniau Marcio ar gyfer pob uned.

Mae'r rhain wedi'u seilio yn y bôn ar ddadansoddiad deallusol trylwyr ac ar gymhwyso'r pedwar Amcan Asesu'n ymarferol, i’w drafod yn yr adran ddilynol.

**Arweiniad UG/Safon Uwch ar gyfer y Cynnwys a Awgrymir i bob un o'r saith teitl sydd ar gael**

# Mynd i'r afael â'r Amcanion Asesu

Beth yw'r gwahaniaethau rhwng yr hen Amcanion Asesu a'r rhai newydd?

| Hen | Newydd |
|---|---|
| **AA1**<br>Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol. | **AA1**<br>Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol. |
| **AA2**<br>Arbrofi gydag adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol a'u dewis, gan adolygu a mireinio eu syniadau wrth i'w gwaith ddatblygu. | **AA2**<br>**Archwilio** adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol a'u dewis, gan adolygu a mireinio eu syniadau wrth i'w gwaith ddatblygu. |
| **AA3**<br>Cofnodi **ar ffurfiau gweledol a/neu ffurfiau eraill** syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i'w bwriadau, gan **amlygu'r gallu** i fyfyrio ar eu gwaith a'u cynnydd. | **AA3**<br>Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i fwriadau, gan fyfyrio'n feirniadol ar waith a chynnydd. |
| **AA4**<br>Cyflwyno ymateb personol, gwybodus ac ystyrlon gan amlygu dealltwriaeth feirniadol, gwireddu bwriadau a, lle bo'n briodol, gwneud cysylltiadau rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig a llafar neu elfennau eraill. | **AA4**<br>Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau a, lle bo'n briodol, gwneud cysylltiadau rhwng elfennau gweledol ac elfennau eraill. |

## AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

### Diffinio 'cyd-destunol' a 'dealltwriaeth'

Gellir diffinio 'cyd-destunol' fel yr amodau rhyng-gysylltiedig y mae gwaith celf, crefft neu ddylunio'n bodoli neu'n digwydd ynddynt. Weithiau esbonnir 'dealltwriaeth' fel cymhwyso gwybodaeth. Fe'i diffinnir hefyd fel gafael neu ddealltwriaeth feddyliol neu ddeallusol, h.y. gweld arwyddocâd neu ystyr rhywbeth.

Yn y bôn, ystyr hyn yw bod angen i ddysgwyr allu adnabod bod gweithiau celf, crefft a dylunio wedi cael eu cynhyrchu at nifer o ddibenion neu fwriadau gwahanol a bod y rhain, yn eu tro, yn dylanwadu ar yr ystyron a'r dehongliadau rydym yn eu cysylltu â nhw. Yn arbennig, mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o ddiben eu gwaith eu hunain a'u bod yn gallu cyfleu beth yw eu bwriadau wrth ei gynhyrchu.

Yn gyntaf felly, dylent allu cyfleu ystyr a diben y dulliau a'r ymagweddau y maen nhw eu hunain yn eu defnyddio. Dylai Datganiad y Dysgwr newydd fod yn ddefnyddiol yn hynny o beth – mae'n rhaid ei roi gyda phob uned a asesir.

Yn ail, rhaid iddynt allu dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol ddulliau ac ymagweddau pobl eraill a gallu cyfleu eu canfyddiadau. Mae'n hanfodol bod y broses o ddadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a hefyd gwaith eraill yn cefnogi ei gilydd fel bod y naill yn cyfoethogi'r llall.

Er mwyn ystyried dulliau ac ymagweddau arlunwyr, gweithwyr crefft a dylunwyr, bydd dysgwyr yn ystyried enghreifftiau hanesyddol a gallant ymchwilio i ffynonellau cyfoes sy'n cynnwys ymarferwyr sy'n dilyn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â theitlau amrywiol y fanyleb hon. Gellir rhestru'r rhain fel a ganlyn:

*Celf, Crefft a Dylunio*

Gall dysgwyr edrych ar ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig â'r teitlau arbenigol, Celfyddyd Gain, Cyfathrebu Graffig, Dylunio Tecstilau, Dylunio Tri Dimensiwn neu Ffotograffiaeth a meysydd astudio sy'n gysylltiedig â'r rhain.

*Celfyddyd Gain*

Gall y rhai sy'n ymchwilio i arferion celfyddyd gain cyfoes edrych ar ymarferwyr sy'n gweithio ym myd ffilm, cyhoeddi, gweinyddu'r celfyddydau, amgueddfeydd ac orielau, celfyddydau cymunedol ac addysgu a phob galwedigaeth sy'n gysylltiedig â'r teitl hwn.

*Cyfathrebu Graffig*

Gall hyn gynnwys ymarferwyr sy'n gweithio mewn meysydd fel darlunio cyffredinol, teipograffeg, ymgynghoriaeth hunaniaeth gorfforaethol a brandio, graffeg gwybodaeth, delweddu wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur, animeiddio 2D, modelu 3D, dylunio ar gyfer dysgu, technoleg print, dylunio gwe, teledu, fideo a gemau cyfrifiadur.

*Dylunio Tecstilau*

Gall dysgwyr ystyried ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau cysylltiedig fel dyluniwr tecstilau, prynwr tecstilau, dylunydd ffasiwn, daroganwr ffasiwn, dylunydd gweuwaith, hetiwr, newyddiadurwr ffasiwn, ymgynghorydd lliwiau, dylunydd gwisgoedd theatr, darlunydd ffasiwn, torrwr patrymau a gwneuthurwr dyluniadau.

*Dylunio Tri Dimensiwn*

Mae hyn yn cwmpasu ystod arbennig o eang o arferion cyfoes, gan gynnwys galwedigaethau fel dylunydd diwydiannol/cynnyrch, dylunydd theatr, dylunydd ar gyfer teledu a ffilm, dylunydd arddangosfeydd, dylunydd pecynnau, dylunydd dodrefn, dylunydd mewnol, ceramegydd, gwneuthurwr modelau pensaernïol, gof arian a gemydd.

*Ffotograffiaeth*

Mae'r galwedigaethau o fewn arferion ffotograffig cyfoes yn cynnwys meysydd fel hysbysebu, newyddiaduraeth ffotograffau, ffasiwn, bywyd gwyllt, ffotograffiaeth ddiwydiannol a thechnegol, stiwdios ffotograffiaeth y stryd fawr a ffilm, teledu a fideo.

*Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol*

Er mwyn ymchwilio i arferion cyfoes, gall dysgwyr edrych ar ymarferwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau fel curaduron neu gadwraethwyr mewn orielau, amgueddfeydd a chanolfannau celf, yn ogystal â newyddiadurwyr, athrawon ac academyddion.

## Beth yw ystyr 'dwys' a 'manwl'?

Diffiniad defnyddiol o'r term 'dwys' fyddai: dal ati, parhau neu gefnogi â phrawf digonol. Mae 'manwl' yn aml yn cyfeirio at ganolbwyntio meddyliau neu sylw wrth ddatblygu trafodaeth neu, yn syml, gallu gweld pethau'n eglur.

## Esbonio 'sgiliau dadansoddol' a 'sgiliau beirniadol'

Mae'r Amcan Asesu'n ei gwneud hi'n ofynnol hefyd i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol. Nid yw'r sgiliau hyn yn rhai unigryw i faes celf a dylunio ac mae hi'n aml yn ddefnyddiol i drafod â chydweithwyr yn yr ystafell staff i gael gwybod sut rhoddir sylw i'r rhain mewn meysydd pwnc eraill. Hefyd gallai hyn fod yn fodd o sefydlu cysylltiadau gwell a mwy cynhyrchiol ar draws agweddau dysgu cysylltiedig. Mae sgiliau dadansoddol yn ofynnol er mwyn nodi perthnasoedd ac archwilio elfennau gweithiau celf, crefft a dylunio. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gymharu a chyferbynnu'r ffordd y mae elfennau gweledol golau, lliw, gwead a chyfansoddiad wedi cael eu defnyddio gan arlunwyr, ffotograffwyr, a/neu ddylunwyr gwahanol at yr un dibenion, neu ddibenion gwahanol. Mae dulliau eraill yn cynnwys defnyddio 'Cynnwys', 'Ffurf', 'Proses' a 'Naws' Rod Taylor; amrywiadau ar dacsonomeg Bloom: 'Disgrifiad', 'Dadansoddiad', 'Dehongliad', 'Gwerthusiad' a 'Dylanwad'; a SPEAR: 'Cymdeithasol', 'Gwleidyddol', 'Addysgol', 'Artistig' a 'Crefyddol'. Gall cyfeirio at fodelau a ddefnyddir, e.e. mewn adrannau Saesneg a Hanes, fod yn ddefnyddiol hefyd.

Mae dysgwyr yn datblygu sgiliau beirniadol fel y gallant gloddio'n ddyfnach o dan arwyneb y pwnc y maen nhw'n ei astudio. Mae dadansoddiad beirniadol da yn ceisio ateb cwestiynau'n ymwneud â sut a pham? Mae hwn yn aml yn weithgaredd nodweddiadol ar draws nifer o feysydd pwnc ym maes addysg uwch. Cysylltir meddwl beirniadol ag ymresymu a'r gallu i feddwl yn rhesymegol. Mae'n cynnwys:

- bod yn ymwybodol o'r rhesymau dros yr hyn rydym yn ei feddwl a'r hyn rydym yn ei wneud;
- holi a gwerthuso ein meddyliau a'n gweithredoedd ein hunain yn feirniadol;
- gallu cyflwyno'n eglur i eraill y rhesymau dros ein meddyliau a'n gweithredoedd.

Eto, mae Datganiad y Dysgwr sydd newydd ei lunio'n cynnig dull defnyddiol o gyflwyno'r fath dystiolaeth o sgiliau beirniadol ar draws pob un o'r cydrannau asesu. Mae elfen ysgrifenedig Ymchwiliad Personol Safon Uwch hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymateb yn fanwl.

Er bod meddwl beirniadol a meddwl rhesymol yn sgiliau pwysig i'w datblygu, mae'r sgiliau creadigol hynny sy'n cynnwys greddf, meddwl heb ei gyfeirio a phrosesau meddyliol anymwybodol lawn cyn bwysiced.

## Beth dylid ei annog neu ei osgoi wrth ddatblygu ymatebion i AA1?

- Anogwch ddysgwyr i wneud pob defnydd posibl o ffynonellau cyd-destunol cynradd, yn enwedig rhai sydd o fewn pellter teithio haws, fel y gellir dychwelyd yno sawl gwaith.
- Rhaid i ddysgwyr fod yn ddetholus iawn ynghylch cyfeiriadau cyd-destunol. Rhaid iddynt fod yn uniongyrchol berthnasol i'r astudiaeth bersonol fel y gallant gyfoethogi'r datblygiadau ymarferol mewn gwirionedd. Llyfr braslunio arlunydd sy'n defnyddio ffynonellau cyd-destunol i lywio ymagwedd yr arlunydd.

- Fel arfer y peth gorau yw dewis llond llaw o'r cyfeiriadau gorau oll yn unig ac astudio'r rhain yn fanwl dros ben yn hytrach nag astudio dwsinau a gânt eu deall yn rhannol yn unig neu nas deellir o gwbl.
- Mae cwestiynau'n ymwneud â sut? a pham? yn fwy treiddgar weithiau na pryd? a ble? wrth ddatblygu ymatebion beirniadol, ond gall pob cwestiwn fod yn berthnasol.
- Rhaid i ddealltwriaeth gyd-destunol *lywio* datblygiadau creadigol personol ond ni ddylent *bennu* beth fydd y rhain. Mewn geiriau eraill, byddwch yn eglur iawn am ddefnyddio a chamddefnyddio copïo, pastiche a thrawsgrifiadau.
- Hyrwyddwch ymweliadau annibynnol ag orielau, amgueddfeydd ac adnoddau eraill fel bod dysgwyr yn dod yn gyfarwydd ag ymgysylltu â chyfeiriadau cynradd drostyn nhw eu hunain. Mae trafod a beirniadu enghreifftiau dethol yn strwythuredig mewn grŵp yn meithrin hyder wrth fynegi barn bersonol ddilys ac yn rhoi sylfaen dda ar gyfer dadansoddi a gwerthuso ysgrifenedig.

## AA2 Gwneud creadigol

Yn y fanyleb newydd, defnyddir y term 'Archwilio' i ddisodli 'Arbrofi' yn yr hen fanyleb. Gellir diffinio 'Arbrofi' fel trefn betrus neu weithgaredd a wneir o dan amodau wedi'u rheoli er mwyn profi rhywbeth. Mae'r term 'Archwilio' yn awgrymu ymdeimlad cryfach o ddiben, rhywbeth a wneir at ddibenion diagnostig neu er mwyn ymholi'n drylwyr.

### Sut rydych chi'n addysgu sgiliau creadigol?

Mae datblygu a chymhwyso sgiliau creadigol, yn enwedig mynegi syniadau'n ddychmygus, o bwys canolog i addysgu celf a dylunio. Mae sgiliau creadigol yn dibynnu ar ddarparu cyd-destunau addas ar gyfer eu cyflawni ac felly mae dulliau dysgu arloesol, heriol a gosod tasgau ysgogol priodol o'r pwys mwyaf. Mae addysgu ar gyfer gwneud creadigol yn gofyn am addysgu'n greadigol. Mae hi'n broses sy'n gofyn llawer o hyd na ellir ei rhagnodi neu ei chopïo. Nid oes glasbrint i'w ddilyn. Mae gan ddysgwyr ran i'w chwarae yn hyn hefyd, wrth drafod gyda'u hathro i ddewis thema neu'r deunydd pwnc ysbrydoledig addas i seilio eu hastudiaethau arno.

Datblygir gallu creadigol trwy gymhwyso'n ymarferol brosesau sy'n cynnwys meddwl ac ymddwyn yn ddychmygus gydag ymdeimlad o bwrpas wedi'i gyfeirio at gyflawni rhai bwriadau.

### Sut gellir disgrifio gweithgarwch creadigol?

Yn aml, gall gweithgarwch creadigol ddechrau trwy archwilio ffynonellau ysgogol, weithiau trwy gymryd syniadau sy'n bodoli eisoes, o bosibl o gyfeiriadau cyd-destunol, a'u cyfuno neu eu dehongli o'r newydd mewn ffyrdd annisgwyl neu eu cymhwyso mewn meysydd nad ydynt fel arfer yn cael eu cysylltu â nhw. Gall hyn gynnwys gwneud cysylltiadau anarferol, dod o hyd i gydweddiadau neu weld perthnasoedd rhwng syniadau neu wrthrychau am y tro cyntaf.

Mae prosesau creadigol ym maes celf a dylunio fel arfer yn cynnwys:

- cam cyntaf o ddrafftio, er mwyn rhoi siâp neu amlinelliad bras;
- proses o ddatblygiad olynol lle mae'r syniad yn cael ei ddiffinio fwyfwy trwy archwilio adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau'n drylwyr;
- cyfnod olaf ond un lle mae amrediad y canlyniadau posibl wedi'i ffocysu'n fwy, ystyrir cyfryngau, techneg, cyfansoddiad a graddfa yn ofalus;
- cyfnod terfynol o fireinio manylion a rheoli'n fedrus er mwyn gwireddu canlyniad o safon sy'n cyflawni'r bwriadau'n llawn.

Mae adolygu a mireinio syniadau wrth i waith ddatblygu yn rhan hanfodol o'r broses hon, ond rhaid mynd ati i wneud hyn yn sensitif. Mae angen cloriannu trylwyr er mwyn sicrhau cydlyniad, cysylltu'r dulliau gweithio â'r canlyniadau, cyfateb canlyniadau i'r bwriadau a dyfeisio modd o gyflwyno'r prosesau a'r canlyniadau i gynulleidfa. Fodd bynnag, dylai gohirio beirniadaeth fod yn elfen bwysig yn y broses greadigol hefyd fel y gellir mynd yn ôl at syniadau a'u hailweithio. O fynd ati yn y ffordd gywir ac ar yr adeg briodol, mae cloriannu beirniadol yn hanfodol ond, ar yr adeg anghywir, gall fygu syniad addawol.

### Beth mae'n rhaid ei ystyried wrth addysgu gwneud creadigol?

Mae nifer o ddulliau addysgu gwahanol, ond efallai y byddai'n werth nodi'r awgrymiadau canlynol:

- gwnewch i'r dysgwyr fod yn ymwybodol o gamau gwahanol y gweithgarwch creadigol, y manylwyd arnynt uchod, ac o'r ffaith bod angen treulio amser a phellter oddi wrth weithgarwch dwys o bryd i'w gilydd er mwyn hwyluso myfyrio (yn rhan o AA3 Cofnodi myfyriol);
- cynlluniwch ar gyfer tasgau archwilio sydd â ffocws eang a chul, gan wneud yn siŵr bod ymdeimlad cryf o ddiben yn y gweithgareddau bob amser.
- anogwch fannau cychwyn a hunanfynegiant personol sydd wedi'u cyfeirio at dasg a ddewiswyd. Datblygwch ymwybyddiaeth o'r cyd-destunau gwahanol y gellir cynhyrchu syniadau gwreiddiol ynddynt, megis ffynonellau ysgogol a lleoliadau a phrofiadau anghyfarwydd, a'r rhan y mae greddf, prosesau meddyliol anymwybodol a meddwl nas cyfeiriwyd yn ei chwarae;
- rhowch bwyslais ar werth chwilfrydedd, holi, dychymyg, gwreiddioldeb a barn dda. Hyrwyddwch agweddau cadarnhaol at wneud creadigol – ymdeimlad o gyffro, edrych ymlaen, parch a rhyfeddod at botensial menter greadigol;
- llywiwch y dysgwyr wrth gynnal eu hymroddiad trwy gynllunio camau y mae ganddynt gyfle ynddynt ar gyfer meddwl cynhyrchiol, archwilio adnoddau, defnyddiau a phosibiliadau'n bwrpasol, heb fod angen gwerthuso'n feirniadol yn syth. Ar yr adeg gywir, dylid gosod cyfnodau o werthuso beirniadol trylwyr rhwng y camau uchod, er mwyn profi elfennau penodol. Dylai hyn, yn ei dro, roi sylfaen adeiladol ar gyfer datblygiad pellach;
- anogwch y dysgwyr i feithrin hunangred yn eu gallu, gan feithrin hyder i fentro'n ofalus, i weld bod gwallau cyn bwysiced â llwyddiannau o ran cynorthwyo eu dysgu, gan gydnabod bod tystiolaeth o'r broses greadigol o leiaf gyn bwysiced â chynhyrchu canlyniadau terfynol.

### Beth arall y dylid ei annog neu ei osgoi wrth ddatblygu ymatebion i AA2?

- Gochelwch rhag dilyn dull 'techneg yr wythnos'. Rhaid cael cydbwysedd rhwng datblygu dyfnder digonol o brofiadau ymarferol ar y naill law, fel y gall dysgwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, a bod ag ymwybyddiaeth o nifer o gyfryngau a thechnegau gwahanol ar y llaw arall, a bod heb feistrolaeth ar unrhyw un ohonynt.
- Mae addysgu da'n cynnwys gwybod pryd mae'n bryd tynnu'n ôl o weithgareddau rhagnodol, wedi'u harwain gan yr athro, er mwyn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu annibyniaeth a dulliau gwirioneddol bersonol, gan gynnig arweiniad yn sensitif lle bo angen. Yn gyffredinol, dylai hyn ddigwydd yn gynt yn y rhaglen ddysgu yn hytrach nag yn ddiweddarach. Mae'n anodd gwobrwyo Gwneud creadigol yn llawn pan fydd

tystiolaeth hollbresennol o ymagweddu cyson, wedi'i gyfarwyddo gan yr athro drwyddi draw.

- Mae'r Amcanion Asesu yn rhoi cryn bwyslais ar *brosesau* creadigol yn hytrach nag ar *gynnyrch terfynol* a rhaid i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hyn wrth gynhyrchu tystiolaeth o'u galluoedd gwahanol.

## AA3 Cofnodi myfyriol

Roedd yr Amcan Asesu hwn yn llawnach o'r blaen ac fe'i golygwyd yn y fanyleb newydd er mwyn dileu ymadroddion diangen heb newid ei ystyr.

Deellir y ferf 'cofnodi' yn gyffredinol fel nodi, neu osod ar ffurf ysgrifen neu ffurf arall y gellir ei darllen at ddibenion cofio neu er mwyn bod yn ddeunydd cyfeirio i'r dyfodol. Mae sawl diffiniad gwahanol i 'myfyriol', y mwyaf priodol mae'n debyg yw 'meddylgar', 'ystyriol' neu 'mynd yn ôl yn y meddwl', neu 'ymgynghori'*.* Mewn termau addysgol, cysylltir hyn yn uniongyrchol â dysgu myfyriol.

Mae dulliau cofnodi'n ymwneud yn bennaf â defnyddio ysgrifennu ar ffurfiau estynedig neu anodedig, ffotograffiaeth ac yn enwedig y sawl math o luniadu. Defnyddir y dulliau hyn, fel y bo'n briodol, i gofnodi *syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau* a ddylai fod i gyd yn berthnasol i fwriadau'r dysgwr. Trafodir y defnydd o luniadu ac ysgrifennu estynedig yn go fanwl yn nes ymlaen yn y canllaw hwn.

Diben canolog yr amcan hwn yw y dylai dysgwyr, yn y broses o ymchwilio ac ymholi gweledol a chyffyrddol, ddod yn fwy sylwgar, gan ddod yn weledol graff a datblygu dirnadaeth o natur wirioneddol neu waelodol yr hyn y maen nhw'n ei astudio. Dylent ddod yn gymwys wrth ddethol, dehongli a chofnodi'r hyn y maen nhw'n ei wybod, ei weld, ei deimlo a'i feddwl, gan gasglu gwybodaeth o amrediad eang o adnoddau ac yn enwedig gan weithio o arsylwi'n uniongyrchol ar ffynonellau cynradd, profiad, cof a dychymyg.

Cyfeirir at fwriadau'r dysgwr yn AA3 ac yn AA4. Er mwyn dod at farn gywir, mae'n hanfodol bod y bwriadau'n cael eu mynegi'n llawn ac yn eglur. Gellir diffinio 'bwriadau' fel 'nod terfynol neu benderfyniad i ymddwyn mewn ffordd arbennig'*.* Mae Datganiad y Dysgwr eto'n darparu modd o esbonio a chyflwyno bwriadau'n llawn.

Gall dysgu myfyriol gynnwys:

- dadansoddi pa mor effeithiol y bu'r dysgu trwy holi a stilio;
- meddwl, er mwyn dyfnhau dealltwriaeth, bod yn feirniadol heb fod yn negyddol;
- dod i farn am y profiad dysgu a dod i gasgliadau;
- egluro ystyr a diben yn y gweithgaredd dysgu;
- chwilio am safbwyntiau cytbwys a'u mynegi;
- trosglwyddo'r dysgu i gyd-destun newydd.

Gellir dadlau nad yw bod yn rhan o brofiad dysgu'n unig yn ddigon oherwydd gall gael ei anghofio'n gyflym os na fyfyrir arno a gellir colli ei botensial dysgu llawn. At hynny, mae'r meddyliau a'r syniadau sy'n codi o fyfyrio'n gallu esgor ar gyffredinoliadau neu gysyniadau sydd, yn eu tro, yn galluogi'r dysgwr i fynd i'r afael â sefyllfaoedd newydd gyda mwy o hyder.

Yn ddelfrydol, dylai myfyrio ddod yn rhan o drefn astudio, gan ychwanegu gwerth at bob profiad dysgu yn ei dro. Nid oes angen iddo fod yn weithgarwch unigol ond gall ddechrau fel trafodaeth rhwng yr athro a'r dysgwr, gweithgaredd mewn parau neu grŵp cyfoedion. Fodd bynnag, dylid dogfennu unrhyw drafodaeth o'r fath fel ei bod o fudd parhaol. Gall anodi

mewn llyfr braslunio neu ddyddlyfr fod yn ffordd arbennig o ddefnyddiol o gadw cofnod o weithgareddau dysgu myfyriol.

### Beth dylid ei annog neu ei osgoi wrth ddatblygu ymatebion i AA3?

- Mae dethol deunydd pwnc addas ar gyfer cynnal ymchwil ac ymholi gweledol a chyffyrddol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant unrhyw un o'r cydrannau asesu. Os nad yw'r dysgwr wedi ymdrin yn arbennig â'r pwnc a ddewiswyd, mae'n annhebygol o wneud iddo fod yn ddiddorol i gynulleidfa. Mae hyn hefyd yn effeithio ar ei ymrwymiad i ymchwil ac, yn y pen draw, yr hyn y gall ei gyflawni.
- Er mwyn tanio diddordeb a mannau cychwyn cynhyrchiol, y peth gorau fel arfer yw chwilio am ffynonellau cynradd sy'n gyfoethog ac anarferol yn weledol. Yn aml gellir dod o hyd i'r rhain yn yr amgylchedd lleol neu ar ei gyrion, ond nid bob amser lle gall y cyhoedd eu gweld yn uniongyrchol. Rhaid ystyried diogelwch a hygyrchedd yn briodol.
- Dylid annog defnyddio camerâu digidol llonydd a chamerâu fideo er mwyn cofnodi gwybodaeth, ond rhaid bod y dysgwyr yn gallu *ymdrin* mewn peth dyfnder â phwnc eu hymholiad gweledol. Fel arfer golyga hyn ei bod hi hefyd yn well defnyddio dulliau cofnodi eraill, fel anodi ac yn enwedig lluniadu, i ddogfennu canfyddiadau ac olrhain datblygiad eu syniadau ymchwil.
- Ar draws amrediad y disgyblaethau, a pha mor gyfyng bynnag y gall sgiliau lluniadu dysgwyr fod, mae lluniadau, astudiaethau lliw a gweadeddol o ffynonellau uniongyrchol yn aml yn fan cychwyn i rai o'r datblygiadau cryfaf.
- Yn anaml y mae gorddibynnu ar ffynonellau eilaidd at ddibenion cofnodi, fel delweddau o'r rhyngrwyd, yn arwain at gyflwyniadau llwyddiannus. Fel arfer mae'n well osgoi ymchwil sydd wedi'i seilio ar ddeunydd pwnc fel arwyddion y Sidydd a chymeriadau ffuglen wyddonol, sy'n ei gwneud hi'n anodd cael gafael ar ffynonellau gweledol a chyd-destunol o ansawdd da.

## AA4 Cyflwyno personol

Yn y fanyleb newydd, mae AA4 wedi'i olygu er mwyn osgoi ailadrodd yr ymadrodd 'dealltwriaeth feirniadol' sydd bellach yn ymddangos yn AA1 yn unig. Mae'r geiriau 'ysgrifenedig, llafar' o ran olaf y frawddeg, hefyd wedi cael eu dileu.

Mae i'r ansoddair 'personol' sawl diffiniad gan gynnwys 'wedi'i wneud heb i rywun arall ymyrryd' ac 'yn cyfeirio at gymeriad, ymddygiad, cymhellion unigolyn'. Mae'r enw 'cyflwyno' yn gallu cyfeirio at 'sut caiff rhywbeth ei osod gerbron neu ei gyflwyno' neu 'y weithred neu'r broses o gyflwyno rhywbeth'. Gellir diffinio 'ystyrlon' yn syml fel 'ag ystyr neu arwyddocâd' neu, efallai'n fwy priodol, 'yn llawn mynegiant, â diben, gwerth chweil'. Dylai'r ymateb fod yn ystyrlon i unrhyw un sy'n ymwneud ag ef ond yn enwedig i'r dysgwr sy'n ei gyflwyno. Dylai'r hyn a gyflwynir ei gwneud hi'n eglur sut mae bwriadau'r dysgwr wedi'u gwireddu, gan dybio bod y rhain wedi'u hesbonio'n llawn.

Defnyddir sgiliau cyflwyno ar draws amrediad o bynciau ac nid ydynt yn unigryw i faes celf a dylunio. Maen nhw'n aml i'w gweld ym maes addysg uwch ac yn y gweithle, yn enwedig cyrff masnachol a hyfforddi.

O ran y fanyleb newydd, mae sgiliau dysgu ar gyfer cyflwyno'n cynnwys:

- gwneud i'r cysylltiadau fod yn eglur rhwng rhannau gwahanol cyflwyniad;
- cyflwyno gwaith mewn trefn resymegol sy'n hawdd ei dilyn;
- egluro diben a chyd-destun y gwaith, gan ddangos sut mae'r bwriadau wedi'u gwireddu;

- dyfeisio ffurf neu ddull cyflwyno sy'n cyd-fynd yn dda â phwnc a diben y gwaith ac sy'n denu diddordeb cynulleidfa.

### Beth dylid ei annog neu ei osgoi wrth ddatblygu ymatebion i AA4?

- Wrth ddatblygu gwaith cwrs a sawl wythnos cyn i bortffolio gwaith cwrs gael ei gyflwyno'n derfynol, gall fod yn ddefnyddiol i ddysgwyr roi cyflwyniad llafar am eu gwaith, efallai i grŵp cyfoedion sy'n adeiladol o feirniadol. Dylai hyn amlygu unrhyw gysylltiadau tywyll neu goll rhwng elfennau amrywiol y gwaith a gyflwynir. I'r gynulleidfa, dylai dynnu sylw at wendidau tebyg yn eu gwaith eu hun.
- Weithiau gellir gwneud defnydd effeithiol o feddalwedd cyflwyno, megis PowerPoint, rhaglenni sain/gweledol neu flogiau wedi'u rheoli'n fewnol fel ffordd ategol o gyflwyno'r gwaith a gyflwynir. Gall y rhain fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth helpu dysgwyr i drefnu a chyflwyno eu gwaith ac er mwyn ystyried pa mor llwyddiannus maen nhw wedi bod wrth fynegi a gwireddu eu bwriadau. Edrychwch ar enghraifft o arddangosfa o waith a gyflwynwyd yn draddodiadol, gan ddefnyddio PowerPoint hefyd.
- Dylid pwysleisio nad yw AA4 Cyflwyno personol yn agwedd ar y cyflwyniad y gellir ei gadael tan gam terfynol y rhaglen ddysgu ond dylid ei chadw mewn cof o'r dechrau.
- Mae'n arbennig o bwysig bod rhaid i'r astudiaeth fod â sail bersonol gref a bod iddi ddiddordeb ac ystyr i'r dysgwr y mae yn dymuno eu cyfleu i eraill.
- Weithiau ystyrir ar gam fod Cyflwyno personol yn ymwneud yn bennaf â chanlyniadau ond, mewn gwirionedd, mae'n ymwneud â'r gwaith a gyflwynir *yn ei gyfanrwydd*. Mae'n cynnwys dod ynghyd â'r holl elfennau ar ffurf addas, gyda llawn cymaint o bwyslais ar brosesau creadigol ag sydd ar gynhyrchion y fenter, gan gyflwyno'r rhain ar ffurf sy'n ennyn diddordeb pawb sy'n ei gweld.

Efallai bydd yn ddefnyddiol cyfeirio at Adroddiad y Prif Arholwr i weld mwy o wybodaeth ar yr hyn y dylid ei annog neu ei osgoi wrth ymateb i'r Amcanion Asesu, ac ystyried strategaethau er mwyn gwella. Cyhoeddir yr adroddiad bob blwyddyn a bydd ar gael ar wefan CBAC.

Darllenwch rannau perthnasol Adroddiadau Arholwyr TAG diweddar sy'n amlygu cryfderau a gwendidau cyflwyniadau Celf a Dylunio ac yn cynnig awgrymiadau i wella perfformiad.

### Rhyngberthynas yr Amcanion Asesu

Er bod y pedwar Amcan Asesu wedi'u diffinio ar wahân, at ddibenion eglurder, wrth addysgu a dysgu mae iddynt ryngberthynas ac maen nhw’n aml yn gorgyffwrdd. Fodd bynnag, dylent barhau i gadw cryn dipyn o gyfanrwydd er mwyn sicrhau yr ystyrir asesu ffurfiannol a chrynodol yn eglur, a'u bod yn ddilys ac yn ddibynadwy.

## Beth yw'r berthynas rhwng yr Amcanion Asesu a phedair elfen hanfodol y fanyleb?

Dylai'r esboniad o'r Amcanion Asesu y manylir arnynt uchod roi cysylltiad mwy amlwg â'r elfennau canlynol.

**Amcanion Asesu**

**(gweler y rhestr wirio i athrawon)**

1. Rhestr Wirio'r Amcanion Asesu i Athrawon

Ymholiad Creadigol Personol/ Ymchwiliad Personol/Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol

2. Rhestr Wirio'r Amcanion Asesu i Ddysgwyr

Ymholiad Creadigol Personol/ Ymchwiliad Personol/Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol

3. Y Cynnwys a Awgrymir ar gyfer teitlau

- Celf, Crefft a Dylunio (YCP)
- Celf, Crefft a Dylunio (YP/AOA)
- Celfyddyd Gain (YCP)
- Celfyddyd Gain (YP/AOA)
- Astudiaethau Beirn. a Chyd. (YCP)
- Astudiaethau Beirn. a Chyd. (YP/AOA)
- Dylunio Tecstilau (YCP)
- Dylunio Tecstilau (YP/AOA)
- Cyf. Graffig (YCP)
- Cyf. Graffig (YP/AOA)
- Dylunio 3D (YCP)
- Dylunio 3D (YP/AOA)
- Ffotograffiaeth (YCP)
- Ffotograffiaeth (YP/AOA)

4. Cynlluniau Marcio

Ymholiad Creadigol Personol/ Ymchwiliad Personol/Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol

## 1. Rhestr Wirio'r Amcanion Asesu i Athrawon

Bwriad Rhestr Wirio'r Amcanion Asesu i Athrawon yw rhoi crynodeb o'r hyn y mae'r Amcanion Asesu yn gofyn amdano, fel yr esboniwyd yn yr adran flaenorol, er mwyn cynllunio rhaglen addysgu ar gyfer dysgwyr ar draws yr amrediad o deitlau. Mae'n dadansoddi elfennau pob AA fel y gellir rhoi sylw llawn i bob un. Gellir ei defnyddio er mwyn monitro'r rhaglen addysgu wrth iddi fynd rhagddi er mwyn nodi unrhyw agweddau a all fod yn gofyn am bwyslais pellach. Gellir ei defnyddio hefyd ar y cyd â'r cynllun marcio priodol ar gyfer asesu ffurfiannol a chrynodol.

## 2. Rhestr Wirio'r Amcanion Asesu i Ddysgwyr

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei llunio er mwyn galluogi dysgwyr ar draws pob teitl i wirio bod pob rhan o bob un o'r pedwar AA wedi'i hystyried wrth ddatblygu eu gwaith a bod y dystiolaeth briodol wedi'i chynhyrchu i fodloni'r meini prawf gwahanol. Trwy rannu'r Amcanion Asesu'n gyfres o ddatganiadau byr, gyda rhai ymadroddion yn cynnig arweiniad ychwanegol, y bwriad yw y gallai dysgwyr gymryd mwy a mwy o gyfrifoldeb dros eu hastudiaethau a rhoi sylw i unrhyw fylchau yn y dystiolaeth y maen nhw'n ei chynhyrchu. Dylai hyn helpu hefyd i sicrhau *sylw* eang a chyfartal i'r hyn sydd ei angen at ddibenion asesu ond nid yw o anghenraid yn dangos *ansawdd* tystiolaeth o'r fath.

Mae rhai canolfannau'n cynhyrchu fersiynau wedi'u haddasu o'r rhestr wirio hon i ddechrau er mwyn symleiddio gofynion yr Amcanion Asesu ymhellach. Ar ôl i'r dysgwyr feistroli'r defnydd o fersiwn wedi'i symleiddio, maen nhw'n symud ymlaen i ddefnyddio'r ddogfen gyfan. Eto, gellir defnyddio'r ddogfen hon ar y cyd â'r cynllun marcio perthnasol at ddibenion asesu.

## 3. Arweiniad UG/Safon Uwch ar gyfer y Cynnwys a Awgrymir i bob un o'r saith teitl sydd ar gael

Mae'r ddwy ddogfen flaenorol wedi'u llunio at ddefnydd generig gan UG a Safon Uwch ac ar draws pob teitl, ond mae'r gyfres hon o 14 arweiniad wedi'i llunio i'w defnyddio ar wahân ar gyfer UG a Safon Uwch ac yn benodol ar gyfer pob un o'r 7 teitl sydd ar gael yn y fanyleb newydd. Mae adran ragarweiniol pob dogfen yn rhoi trosolwg o'r disgyblaethau sy'n dod o dan y teitl yn ogystal â chynnig gwahaniaethau defnyddiol, megis rhwng Celf, Crefft a Dylunio a Chelfyddyd Gain. Dylid nodi bod yr hen deitl 'Ffotograffiaeth: Cyfryngau Lens a Golau Seiliedig' bellach â'r teitl syml 'Ffotograffiaeth'*.*

Mae'r term 'Y Cynnwys a Awgrymir' yn golygu awgrym o'r hyn allai gael ei gynnwys mewn cyflwyniad ar gyfer teitl penodol, er mwyn bodloni'r anghenion asesu. Nid yw cynnwys pob dogfen yn holl gynhwysfawr nac yn rhagnodol ond, o dan bob teitl (Celf, Crefft a Dylunio, Celfyddyd Gain ac ati), ar gyfer UG a Safon Uwch, disgwylir i ddysgwyr ystyried yr agweddau arbenigol y manylir arnynt o dan bob un o'r pedwar Amcan Asesu. Yn ogystal, cyfeirir at dystiolaeth nad yw'n cael sylw digonol yn aml megis '... cam olaf ond un (y broses greadigol) er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.'

Y gwahaniaeth rhwng fersiynau UG a Safon Uwch pob teitl yw bod y cyntaf yn fersiwn deneuach o'r olaf yn y bôn er mwyn adlewyrchu'r newid yn lefel y gofynion. Gellir defnyddio'r gyfres hon o ddogfennau at amrywiaeth o ddibenion gan gynnwys disgrifyddion cwrs arbenigol, gan helpu dysgwyr i nodi'r cyrsiau sy'n gweddu orau i'w hanghenion a'u gallu, fel ffynhonnell gyfeirio i athrawon wrth gynllunio'r gwaith o gyflwyno'r gwahanol deitlau ac eto,

ar y cyd â'r cynlluniau marcio generig, er mwyn helpu asesu ffurfiannol a chrynodol yn y teitl y maen nhw'n berthnasol iddo.

### 4. Cynlluniau Marcio ar gyfer pob uned

Mae gan bob uned ei chynllun marcio penodol ei hun sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r pedwar Amcan Asesu ond sy'n generig i bob un o'r 7 teitl a gynigir yn y fanyleb. Mae'r cynlluniau marcio'n cynnwys setiau o ddatganiadau hierarchaidd, wedi'u cyflwyno mewn colofnau fertigol sy'n ymwneud ag agweddau gwahanol pob un o'r pedwar AA ac â phum band marcio, wedi'u cyflwyno mewn rhesi llorweddol. Ni roddir marciau am ymatebion nad ydynt yn teilyngu marciau neu na roddwyd cynnig arnynt. Mae'r cynlluniau marcio ar gyfer UG a Safon Uwch yn gwahaniaethu o ran bod gan yr olaf set o ddatganiadau uwchben y rhai ar gyfer UG. Felly hefyd, mae gan gynllun marcio UG set o ddatganiadau o dan y rhai Safon Uwch.

Mae gwahaniaeth pwysig arall rhwng y cynlluniau marcio ar gyfer Uned 2 Safon Uwch: Ymchwiliad Personol. Rhoddir cydnabyddiaeth benodol i ddadansoddi a gwerthuso beirniadol ysgrifenedig a'r defnydd o eirfa arbenigol yn y dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer AA1. Mae'r blwch ar waelod y cynllun marcio ar gyfer yr Ymchwiliad Personol yn cynnig cyfeiriad defnyddiol at asesu ysgrifennu estynedig ar gyfer yr uned honno ar draws pob un o'r Amcanion Asesu.

## Crynodeb o Asesu Celf a Dylunio UG a Safon Uwch

Mae'r gofynion asesu ar gyfer yr unedau gwahanol yn y fanyleb newydd wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

| TAG UG: un uned |
| --- |
| **Ymholiad Creadigol Personol (40% o'r cymhwyster – 160 marc)**<br>• **Wedi'i bennu'n fewnol, wedi'i asesu'n fewnol, wedi'i safoni'n allanol.** |
| TAG Safon Uwch: dwy uned |
| **Uned 2**<br>• **Ymchwiliad Personol (36% o'r cymhwyster – 160 marc)**<br>• **Wedi'i bennu'n fewnol, wedi'i asesu'n fewnol, wedi'i safoni'n allanol.** |
| **Uned 3**<br>• **Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (24% o'r cymhwyster – 100 marc)**<br>• **Wedi'i asesu'n fewnol, wedi'i safoni'n allanol.** |

## Beth yw nodweddion strwythur newydd y cwrs a'r sail rhesymol iddynt?

Bwriad y fanyleb yw galluogi dysgwyr i gaffael profiad dysgu dilyniannol a chynyddrannol o sylfaen ragarweiniol eang o gelf, crefft a dylunio, a hynny'n gysylltiedig â'u dewis opsiwn yn Uned 1 Ymholiad Creadigol Personol UG. I'r rhai sy'n dymuno parhau â'u hastudiaethau i Safon Uwch,

mae'r UG yn arwain at fwy o arbenigedd a chyrhaeddiad yn Uned 2 Ymchwiliad Personol ac Uned 3 Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol ar Safon Uwch.

Mae strwythur y cwrs UG yn darparu rhaglen astudio gynhwysfawr i'r dysgwyr hynny sy'n symud ymlaen i'r Safon Uwch lawn. Mae iddi'r nodweddion canlynol:

- mae gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau wedi'u datblygu'n gyfannol mewn ffordd gronnus;
- hwylusir dysgu beirniadol, ymarferol a damcaniaethol integredig trwy ymgysylltu'n bwrpasol o fewn fframwaith o ymroddiad creadigol;
- dylai'r deunydd pwnc fod ag arwyddocâd personol, gan hyrwyddo dysgu annibynnol sydd â chymhelliant personol.

Mae'r sail rhesymol hwn:

- yn llywio cynnwys pwnc ac Amcanion Asesu'r rheoleiddwyr;
- wrth wraidd cynllun y fanyleb a'r strategaethau asesu sy'n cyd-fynd â nhw;
- yn adlewyrchu arferion addysg gelf, addysg uwch ac arferion proffesiynol sydd wedi'u sefydlu yn y DU;
- wedi'i gefnogi'n gryf gan randdeiliaid, gan gynnwys Addysg Uwch;
- yn darparu'r model ar gyfer arferion addysg gelf Ewropeaidd uchel eu cyflawniad.

Wrth ddatblygu'r fanyleb ac ar ôl ymgynghori helaeth ag amryw o randdeiliaid, mae cynllun y fanyleb wedi gofalu cynnwys y nodweddion canlynol:

- cyfleoedd ar gyfer dulliau addysgu hyblyg;
- ehangder astudiaeth o fewn amrediad amrywiol o deitlau a luniwyd i alluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau;
- cyfle i ddysgwyr weithio'n arbrofol, yn arloesol, yn annibynnol ac ar y cyd yn ogystal â defnyddio penderfyniadau creadigol mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n gweddu i'w diddordebau penodol;
- cysylltu ymholiad ymarferol ag astudiaeth feirniadol a chyd-destunol o artistiaid, gweithwyr crefft a dylunwyr perthnasol;
- cwmpas eang er mwyn mireinio sgiliau ymarferol, beirniadol a damcaniaethol yn yr Ymholiad Creadigol Personol yn UG ac yn yr Ymchwiliad Personol yn Uned 2 Safon Uwch;
- pwyslais ar ymgeiswyr yn dod yn ddysgwyr annibynnol, yn cymryd risg, yn arbrofi ac yn gweithio'n arloesol trwy amryw o gyfryngau a thechnolegau;
- amrediad eang o aseiniadau ag ysgogiadau o ansawdd uchel ar gyfer Uned 3 Safon Uwch: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

Mae'r Safon Uwch ac UG newydd wedi'u hadeiladu ar lwyddiant y fanyleb gyfredol ac ystyriwyd adborth gan athrawon er mwyn llunio cyrsiau gwell. Mae'r rhain wedi'u llunio fel y gall athrawon barhau â'r arferion gorau a chynllunio a chyflwyno'n hyderus raglenni sy'n gweithio i'w cryfderau nhw ac i ddiddordebau a gallu eu hymgeiswyr. Mae'r cynnwys yn hyblyg a bydd yn galluogi athrawon a dysgwyr i fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael i ganolfannau.

Mae strwythur y cwrs ar gyfer UG hyd yn oed yn symlach na'r fanyleb gyfredol, ac yn cynnwys un uned gwaith cwrs yn unig, y bwriedir iddi gael ei haddysgu mewn blwyddyn. Mae'r Safon Uwch yn cynnwys dwy uned pellach ac mewn llawer o ffyrdd mae'n debyg i'r Gwaith Cwrs a'r Aseiniad Dan Oruchwyliaeth sydd yn yr U2 cyfredol. Gan fod Ymholiad Creadigol Personol UG ac Ymchwiliad Personol Safon Uwch yn rhannu cynnwys cyffredin, gall fod yn bosibl addysgu ymgeiswyr UG a Safon Uwch ar y cyd os yw grwpiau'r ymgeiswyr yn fach iawn a bod yr amgylchiadau'n mynnu hyn.

Mae Ymholiad Creadigol Personol UG ac Ymchwiliad Personol Uned 2 Safon Uwch yn caniatáu digon o amser ar gyfer addysgu amrediad pwysig (ac o bosibl diagnostig) o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Cydnabyddir y dylid caffael y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n benodol i brosesau creadigol dros gyfnod o amser, y cyfeirir ato yn gyffredinol fel 'y daith greadigol', er mwyn meithrin yr arferion gorau. Cadarnhawyd hyn trwy ymgynghori ag athrawon, Addysg Uwch a rhanddeiliaid eraill. Nid yw'n syndod bod hyn hefyd yn adlewyrchu'r fethodoleg addysgol orau oll a'i fod yn cefnogi dilyniant i'r diwydiannau creadigol yn llawn.

Roedd yn eglur o'r profiad o fonitro ac asesu’r cyrsiau UG a Safon Uwch presennol bod angen mwy o amser er mwyn adeiladu sgiliau sylfaenol, arbrofi, gwneud camgymeriadau, arloesi a chodi safonau'n gyffredinol. Dylai hyn fod yn bosibl bellach.

Dylid cydnabod nawr, hyd yn oed yn fwy nag yn y fanyleb flaenorol, mai bwriad UG yw bod yn rhaglen gwaith cwrs hyblyg ac mae hyn, ynghyd â'r amser ychwanegol sylweddol fydd ar gael (12 i 14 wythnos, o ganlyniad i ddileu Aseiniad Dan Oruchwyliaeth UG), yn ei gwneud hi’n ofynnol i athrawon adolygu eu gwaith cynllunio'r cwrs i gryn raddau. I unrhyw rai sydd â phryderon am gynnal cymhelliant dysgwyr dros y cyfnod estynedig sy'n gyfanswm o dros 8 mis, mae nifer o opsiynau y gellir eu hystyried. Mae'r posibiliadau'n cynnwys, ar adeg briodol yn y cwrs, aseiniad neu aseiniadau wedi'u gosod yn fewnol sy'n ymwneud â themâu'r gwaith cwrs neu lunio cyfres o friffiau dylunio penodol, o bosibl trwy ymgynghori â’r dysgwyr, er mwyn ychwanegu ffocws a chynnal ymrwymiad.

## Beth yw cynnwys cwrs sylfaenol yr Unedau UG a Safon Uwch?

### UG Ymholiad Creadigol Personol

Mae UG Celf a Dylunio'n cynnwys **un** uned:

- project/portffolio estynedig, ymchwiliol a chanlyniadau yn seiliedig ar themâu sy'n bersonol ac yn ystyrlon i'r dysgwr;
- dull integredig lle cyfunir gwaith beirniadol, ymarferol a damcaniaethol i gynhyrchu ymateb cydlynol;
- pennir yr Ymholiad Creadigol Personol yn fewnol, fe'i hasesir gan yr athro a'i safoni'n allanol;
- nid oes terfyn amser penodol ond mae'n rhaid cyflwyno marciau'r ganolfan, a aseswyd yn fewnol, i CBAC erbyn y dyddiad cau ar 31 Mai.

D.S. Rhoddir disgrifiadau llawnach o bob uned yn adrannau perthnasol y fanyleb.

Gellir crynhoi’r sail rhesymol ar gyfer un uned fel a ganlyn:

- nod y fanyleb yw sicrhau bod dysgwyr yn datblygu amrediad mor eang â phosibl o sgiliau sylfaenol cyn symud ymlaen i ddatblygu'r Ymholiad Creadigol Personol;
- mae un uned yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen gydag un ffocws, yn gydlynol, i'w potensial uchaf ymhen blwyddyn o astudio;
- byddai mwy nag un uned wedi'i hasesu yn gwanhau datblygiad cronnus sgiliau beirniadol, ymarferol a damcaniaethol mewn cwrs o lai na 9 mis o hyd;
- mae'r ymagwedd hon at asesu'n cael ei chefnogi'n gryf gan randdeiliaid, addysg uwch yn enwedig, gan ei fod yn adlewyrchu eu harferion nhw, a hefyd gan athrawon, sydd

eisiau sicrhau bod gan ddysgwyr gyfle i ddod yn ddysgwyr annibynnol, i gymryd risg yn greadigol, i arbrofi ac arloesi ac felly i gaffael eu cyrhaeddiad uchaf posibl.

Mae'r UG yn adlewyrchu cynnwys Safon Uwch, yn unol â'r cynnwys pwnc cyffredin. Gall y dysgwr, mewn ymgynghoriad â'i athro, ddethol thema/themâu ei Ymholiad Creadigol Personol fel y gellir ei anelu at ddiddordebau a gallu'r dysgwr, gan sicrhau'r lefel gywir o ran gofynion ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Gellir hefyd ystyried yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael ym mhob canolfan a ffynonellau cyfeirio gweledol a chyd-destunol hygyrch.

Gallai amserlen bosibl ar gyfer cwrs UG fod fel a ganlyn. Gellir dysgu sgiliau priodol (sylfaenol) yn nhymor 1 gyda'r portffolio'n dechrau cael ei lunio yn nhymor 2 gyda'r gwaith yn cyrraedd penllanw yn nhymor 3 pan fydd dysgwyr wedi dod yn fwy aeddfed a chymwys. Dylent fod yn gallu syntheseiddio'r holl wybodaeth, yr holl ddealltwriaeth a'r holl sgiliau y maent wedi'u caffael yn gynharach a dod â'r rhain i ganlyniad wedi'i ddatrys yn barod ar gyfer yr asesu mewnol a'r safoni allanol.

## Safon Uwch

Yn ogystal ag uned UG Ymholiad Creadigol Personol, bydd Safon Uwch Celf a Dylunio'n cynnwys **dwy** uned bellach:

### Uned 2: Ymchwiliad Personol

sy'n cynnwys **dwy** ran integredig:

Rhan 1. Prif broject/portffolio ymchwiliol beirniadol, ymarferol a damcaniaethol.

Rhan 2. Elfen ysgrifennu estynedig sy'n cynnwys rhwng 1000 a 3000 gair y mae'n rhaid iddo ymwneud yn amlwg â'r gwaith ymarferol.

- Bydd y dysgwr a'r athro/athrawes yn penderfynu ar yr Ymchwiliad Personol, a'r gwaith yn cael ei asesu gan yr athro/athrawes a'i safoni'n allanol.
- Asesir yr elfennau ymarferol ac ysgrifenedig gyda'i gilydd.
- Dim terfyn amser penodol, ond bydd yr Aseiniad a Osodir yn Allanol ar gael o 1 Chwefror ym mlwyddyn yr arholiad.

Dylai cynllun yr Ymchwiliad Personol alluogi dysgwyr i gael profiad o broses integredig sy'n cwrdd â phob Amcan Asesu.

Dylai hefyd adlewyrchu natur gyfannol celf a dylunio fel bod pob dysgwr yn gallu ymgysylltu â Dealltwriaeth gyd-destunol (AA1), amrediad o adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau (AA2), Cofnodi myfyriol (AA3) ac ymatebion creadigol, sydd yn eu hanfod yn bersonol (AA4).

## Uned 3: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol

sy'n cynnwys **dwy** ran:

Rhan 1: Astudiaethau ategol/gwaith paratoadol sy'n seiliedig ar ysgogiad wedi'i osod yn allanol a ddewiswyd gan y dysgwr.

- Dylai'r ymatebion fod ar ffurf gwaith paratoadol beirniadol, ymarferol a damcaniaethol sy'n llywio rhan 2 ac yn gysylltiedig â hi.

Rhan 2: Cyfnod 15 awr o waith dwys a manwl lle mae'r dysgwr yn cyflawni ei waith o dan amodau dan oruchwyliaeth.

- Fe'i hasesir gan yr athro a'i safoni'n allanol.
- Asesir y ddwy ran gyda'i gilydd.
- Dylai'r ganolfan bennu'r dyddiadau cychwyn a gorffen, gan ystyried y dyddiad cau ar 31 Mai.

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (enghraifft o bapur cwestiynau, cyfeiriwch at dudalennau 7–16)

Enghraifft o Gwestiwn 1 DVD Delwedd Symudol

## Pam mae'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol wedi'i gyflwyno gydag ysgogiadau gweledol ac ysgrifenedig?

Iaith weledol yw Celf a Dylunio ac mae'n ymddangos yn hollol ddymunol y dylid cynnwys ysgogiadau gweledol yn yr Aseiniadau a Osodir yn Allanol. At hynny, mae cenhedlaeth dysgwyr heddiw'n hollol gyfarwydd â delweddaeth symudol, petai ond trwy ddefnyddio eu ffonau symudol, ac felly mae un o'r ysgogiadau gweledol yn cael ei gyflwyno fel dilyniant fideo. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i'r ymatebion fod ar ffurf delweddau symudol wrth gwrs, yn union fel nad yw'r ysgogiadau ysgrifenedig mwy traddodiadol yn gofyn am ymatebion ysgrifenedig. Dewisir y delweddau gweledol ar sail eu deunydd pwnc ac nid o anghenraid o achos unrhyw nodwedd esthetig. Rhagwelir y bydd modd dod o hyd i'r ffynonellau cynradd, tebyg i'r rhai a fydd ynddynt, o fewn amgylchedd lleol y dysgwr ei hun fel arfer.

Mae'r Aseiniadau wedi'u Gosod yn Allanol newydd ar gyfer Uned 3 wedi'u seilio ar lwyddiant sylweddol y fersiynau presennol, gyda rhai mân nodweddion mireinio. Mae profiad wedi dangos bod y mathau gwahanol o ysgogiadau'n gweddu i fathau gwahanol o ddysgwyr a bod amrywiaeth eang y dewis yn denu amrywiaeth drawiadol o ymatebion gan ddysgwyr o bob gallu. Gallant ddewis un o'r deuddeg aseiniad, cyhyd ag y maent yn ymateb trwy'r ddisgyblaeth y maen nhw wedi'u cofrestru ar ei chyfer.

## Sut dylid cynnal Uned 3 (Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol)?

**Cyfnod paratoadol**

Mae'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn elfen bwysig yn y broses asesu ac mae'n hanfodol bod ei ddilysrwydd, ei ddibynadwyedd a'i unplygrwydd wedi'u deall yn dda, ynghyd â gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd dysgu gwerthfawr y mae'n eu cynnig. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n ymwneud â chynnal ac asesu'r arholiadau Celf a Dylunio hyn i gadw’n gaeth at y gofynion a rhaid cydnabod nad cyfrifoldeb y bwrdd arholi'n unig yw hyn.

**Dilysu gwaith**

O dan bob amgylchiad, rhaid mai gwaith yr ymgeisydd yn unig heb amheuaeth yw pob darn o waith a gyflwynir i'w asesu, gan gynnwys yr astudiaeth baratoadol a wneir i ffwrdd o'r ganolfan. Cyhyd ag y bo'n bosibl, dylai aelod o staff oruchwylio hyn. Lle nad yw gwaith wedi'i oruchwylio'n agos, dylai mesurau addas fod yn eu lle er mwyn sicrhau bod natur ac ansawdd y gwaith yn cyfateb i'r hyn a gynhyrchir dan oruchwyliaeth. Gellir defnyddio nifer o strategaethau at y diben hwn, megis:

- gwneud i'r ymgeisydd wneud gwaith tebyg dan oruchwyliaeth agos a chymharu'r safonau â gwaith a gynhyrchwyd heb ei oruchwylio;
- cynnal *viva* gyda'r ymgeisydd i holi am darddiad a datblygiad y gwaith er mwyn pennu a yw'n ddilys;
- gofyn i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth bod gwaith heb ei oruchwylio'n ddilys.

Er mwyn osgoi camddeall neu embaras yn ddiweddarach, mae rhai canolfannau’n sefydlu’r strategaethau hyn ar ffurf cytundeb ar ddechrau’r cwrs. Rhaid bod pob gwaith cwrs (Ymholiad Creadigol Personol UG ac Ymchwiliad Personol Safon Uwch) a phob gwaith paratoadol ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (Uned 3 Safon Uwch) fod yn amodol ar y gweithdrefnau uchod i ddiogelu unplygrwydd y system asesu.

**Gwaith dwys a manwl**

Yn y fanyleb newydd, 15 awr yw'r cyfnod hwn ar gyfer Uned 3: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, o dan amodau arholiad. Dylid cyfeirio at ddogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*.

Oherwydd amrywiaeth enfawr yr ymagweddau y mae ymgeiswyr yn eu defnyddio wrth fynd i'r afael â'r cyfnod o waith dwys a manwl, nid yw'n bosibl nac yn ddymunol rhoi manylion gweithdrefnau penodol ar gyfer cynnal y cyfnod 15 awr.

Yn hytrach na nodi manylion rheoleiddio, mae’n ofynnol i ganolfannau ddilyn yn gaeth rai egwyddorion cyffredinol. Yn ogystal â diogelu unplygrwydd y gweithdrefnau asesu'n drwyadl, bydd y rhain yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y llu o gyfryngau, technegau a phrosesau y mae ymgeiswyr yn eu defnyddio ar draws teitlau amrywiol yr arholiad. Mae'r rhain yn amrywio o hen dechnoleg, megis gwaith cerameg wedi'i grasu, i gyfryngau newydd a broseswyd yn ddigidol ein hoes bresennol.

**1.** Mae'r egwyddor gyntaf – a'r pwysicaf o'r rhain yn ôl pob tebyg – yn ystyried gwerth addysgol gwaith manwl a dwys. Mae'n rhaid i ni i gyd weithredu o fewn terfynau amser penodol yn ein bywydau beunyddiol ac yn y gweithle. Mae'r cyfnod o 15 awr yn rhoi cyfle i ymgeiswyr gael profiad o sut mae gweithio o dan rai cyfyngiadau penodedig ac o fewn amserlen a bennwyd ymlaen llaw. Mae manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn yn

gofyn am gynllunio a pharatoi manwl ymlaen llaw er mwyn sicrhau ei fod yn brofiad dysgu cadarnhaol.

**2.** Yr ail egwyddor, felly, yw bod rhaid cynllunio'r cyfnod o 15 awr yn iawn. Dylai pob ymgeisydd wneud y cynllunio ymlaen llaw mewn ymgynghoriad agos â'i athro. Rhaid i'r cyfnodau a gynlluniwyd ystyried ffactorau trefniadol a allai gynnwys:

- yr adnoddau, yr offer, y lle gwaith y bydd eu hangen;
- yr amser a gymerir i wneud y gweithdrefnau amrywiol a'r prosesau cysylltiedig megis golchi, argraffu, sychu a chrasu.

Fel y bo'r angen, dylid rhannu'r cyfnod 15 awr yn gyfnodau byrrach* fel bod modd gwneud gwaith atodol, fel paratoi'r sgriniau, sychu gwaith clai a thorri byrddau mowntio y tu allan i'r cyfnod 15 awr.

**3.** Mae hyn yn arwain at y drydedd egwyddor sef y dylai'r cyfnod 15 awr wneud y defnydd gorau o allu'r ymgeisydd fel ei fod yn brawf dilys o gymwyseddau pwysig a'i fod yn cynrychioli lefel her addas o uchel. Nid yw'n ddymunol bod tasgau cul neu gymharol ddi-her, fel labelu neu fowntio gwaith neu argraffu ffotograffau'n ddigidol, yn cymryd llawer, neu unrhyw ran o'r amser a neilltuwyd.

**4.** Yn olaf, rhaid nodi'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod o 15 awr yn eglur yng nghorff y dystiolaeth a gyflwynir i'w safoni. Er y bydd asesu Uned 3 yn ystyried pob darn o waith a gyflwynir yn llawn, bydd angen i'r safonwr ystyried beth mae'r ymgeisydd wedi gallu ei gynhyrchu o dan amodau dan oruchwyliaeth y cyfnod o waith dwys a manwl.

Yn y rhan fwyaf o'r amgylchiadau, trefnir y cyfnod 15 awr fel bod yr ymgeisydd yn gallu dod â'i waith i ben yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, efallai bydd angen atgoffa ymgeiswyr nad oes rhaid i ganlyniad yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol fod yn ddarn o waith sydd wedi'i gwblhau'n llwyr, ond y dylent gwblhau digon i ddangos eu gallu i fynd â'r aseiniad ymlaen i ganlyniad wedi'i ddatrys.

Yn syth ar ôl y cyfnod o waith dwys a manwl, dylai dysgwyr ddethol, labelu, cyflwyno a gwerthuso eu gwaith er mwyn paratoi at y marcio mewnol a'r safoni allanol. Ni ddylai hyn gymryd gormod o amser.

***NID** argymhellir bod y gwaith manwl a dwys yn cael ei gynnal dros ormod o sesiynau byr wedi'u gwasgaru dros fwy nag wythnos, gan fod hyn yn debygol o roi ymgeiswyr o dan anfantais, oherwydd colli dilyniant. Gallai'r arfer o drefnu sesiynau'r cyfnod dwys a manwl fel eu bod yn digwydd yn ystod cyfnod arferol y gwersi darfu ar ddyfalbarhad yr ymgeiswyr. Fel y mae ei deitl yn ei awgrymu, dylai'r cyfnod fod yn **ddwys** ac yn **fanwl** a dylid gwneud trefniadau amserlennu priodol i hwyluso hyn. Gellid ystyried sesiynau tair i bum awr o hyd wedi'u trefnu o fewn wythnos fel y norm.

## Datganiad y Dysgwr

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i bob uned UG a Safon Uwch fod naill ai â 'Datganiad Bwriad' (ART1, 2 a 3) neu ddogfen 'ymestyn a herio' (ART4). Yn lle'r rhain mae Datganiad y Dysgwr newydd y mae'n rhaid ei gwblhau ar gyfer pob uned.

[Templed Datganiadau Dysgwyr, Ymholiad Creadigol Personol (yn yr adran Ffurflenni Gwaith Cwrs Asesiad Mewnol) – yr un strwythur ar gyfer pob uned.]

Un o ddibenion llunio Datganiad y Dysgwr, y mae'n rhaid ei gwblhau ar gyfer pob uned UG a Safon Uwch, yw galluogi dysgwyr i gyflwyno i eraill y syniadau a'r gweithredoedd sy'n sail i'w cyflwyniadau. Mae safonwyr yn gyson yn tynnu sylw at y ffaith bod gan gyflwyniadau ddiben cryfach ac ymdeimlad mwy eglur o gyfeiriad pan fydd ymgeisydd wedi rhoi amser ac ymdrech i ystyried a dogfennu ei amcanion yn ofalus a chynllunio sut gellid cyflawni'r rhain orau. Yn allweddol, rhaid gweld y datganiad fel gweithgaredd cynllunio parhaus, o bosibl wedi'i ddogfennu ar ddechrau uned, wedi'i gloriannu o'r newydd yn ystod yr astudiaeth ac ar ei diwedd. Os canfyddir hyn fel gweithgaredd llenwi ffurflenni'n unig, mae'n debygol na fydd o lawer o fudd.

Bwriad dogfen Datganiad y Dysgwr yw darparu fframwaith defnyddiol i ddysgwyr drefnu eu gwaith ac esbonio hyn i eraill. Fe'i cyflwynir o dan y penawdau 'Prif Syniad', 'Cynllun', 'Cyd-destun' a 'Myfyrio'*.* Mae'r adran gyntaf yn galluogi'r dysgwr i esbonio'r prif syniad y mae'r ymateb wedi'i ddatblygu oddi wrtho, e.e. y ffordd y dehonglir yr ysgogiad a ddewiswyd yn yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Yn dilyn hyn mae adran lle dylid amlinellu'r cynllun cychwynnol, gan gofio y bydd hwn yn aml yn newid wrth i'r astudiaeth fynd rhagddi. Mae'r drydedd adran yn gofyn i'r dysgwr ddisgrifio cyd-destun y gwaith, h.y. y dylanwadau arno, ei ddibenion a'i ystyron, e.e. y ffordd y mae astudiaeth gyd-destunol wedi effeithio ar ymholiad ymarferol personol. Mae'r adran olaf yn rhoi cyfle i fyfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl ei gwblhau, e.e. trwy ddangos sut daethpwyd i ddealltwriaeth ddyfnach ac ystyr a diben mwy eglur.

Enghreifftiau o Ddatganiad y Dysgwr wedi'u cwblhau.

## Pa newidiadau eraill a gyflwynwyd yn y fanyleb newydd?

Yn ogystal â'r elfennau a drafodwyd eisoes yn y canllawiau hyn, mae dwy elfen arall y mae rhanddeiliaid, yn arbennig ym maes addysg uwch, wedi gofyn i ragor o bwyslais gael ei roi arnynt. Mae'r rhain wedi'u gwneud yn ofynion gan y rheoleiddwyr yn y cynnwys pwnc ar gyfer UG a Safon Uwch fel ei gilydd ac, fel y cyfryw, maen nhw'n berthnasol i fanylebau a gynhyrchir gan bob corff dyfarnu.

Mae'r cyntaf o'r gofynion ychwanegol hyn yn cyfeirio at luniadu a'r ail at ysgrifennu estynedig.

### Lluniadu

Er mwyn rhoi arweiniad ar y pwyslais ychwanegol ar luniadu, gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio at rai darnau o'r fanyleb.

**(O Adran 2: CYNNWYS Y PWNC)**
'Mae pwyslais hefyd ar werth sgiliau lluniadu. Mae holl fanylebau UG/Safon Uwch Celf a Dylunio yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu sgiliau i 'gofnodi profiadau ac arsylwadau, mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddefnyddio lluniadu a ffurfiau gweledol priodol eraill; ymgymryd â gwaith ymchwil; a chasglu, dewis a threfnu gwybodaeth weledol a gwybodaeth briodol arall'. Dylai'r ffocws hwn annog dysgwyr i werthfawrogi arwyddocâd lluniadu yn yr ystyr ehangaf trwy adnabod ac adolygu sut mae'n bwydo'r broses greadigol ar draws y disgyblaethau.'

Pwysleisir (yn **Atodiad A**) y 'dylai sgiliau lluniadu fod yn rhan annatod o'r holl unedau er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn gallu gwneud defnydd hyderus o'r elfen hanfodol hon o'r

broses greadigol ac o iaith weledol. Hefyd dylai atgyfnerthu ymarfer, cefnogi dilyniant a bodloni gofynion addysg uwch a/neu'r diwydiannau creadigol.'

Gellir dadlau bod lluniadu'n unigryw gan ei fod yn cynyddu gallu'r dysgwyr i weld ac i ddeall y byd gweledol a chyffyrddol. Yn bwysig, mae'n galluogi iddyn nhw feddwl yn weledol ac i gyfleu'r meddyliau hyn i eraill. Mae safonwyr, wrth asesu cyflwyniadau UG a Safon Uwch Celf a Dylunio, yn cydnabod yn aml bod egni a chwmpas creadigedd y dysgwyr wedi'i gyfyngu gan ddiffyg delweddu syniadau trwy luniadu.

Hyd yn oed os yw'r lefel cymhwysedd a enillwyd gan y dysgwyr yn gymharol fach, gallant ddefnyddio lluniadu'n bwrpasol o hyd i gofnodi gwybodaeth, delweddu syniadau a chyfathrebu posibiliadau. Er mwyn dangos hyn gallwn ddefnyddio'r enghraifft ganlynol, a gynhyrchwyd gan blentyn chwe mlwydd oed, sy'n dangos sut roedd yn bwriadu dal gwahadden (twrch daear) a oedd yn ymddangos yn benderfynol o gloddio lawnt y teulu:



Gydol ei luniad, roedd yn gallu gweithio allan yn weledol sut roedd yn bwriadu dal y wahadden. Hefyd, trwy ei luniad, roedd yn gallu cyfleu ei syniadau i eraill a oedd â diddordeb mewn rhoi terfyn ar weithgarwch cloddio'r twrch daear.

Cyfryngau effeithiol iawn i'w defnyddio gan ddysgwyr yw llyfrau braslunio neu lyfrau gwaith crefft/dylunio. O'u defnyddio gallant gofnodi, trwy luniadu a dulliau eraill, dameidiau diddorol o wybodaeth, rhoi cynnig ar bosibiliadau myfyrgar ac archwilio defnyddiau a thechnegau fel rhan o astudiaeth ymchwiliol. O dro i dro, cyfeirir at y rhain fel dyddiaduron gweledol ac, oherwydd hynny, byddant yn cynnwys syniadau bras a nodiadau gweledol heb eu gorffen. Nid oes bwriad i'r rhain ffurfio casgliad o ddarnau gwaith gorffenedig. Dylid nodi bod modd gosod lluniadu mewn amrywiol gyd-destunau yn y fanyleb hon yn ogystal ag yn y broses greadigol. Yn aml, mae'r term 'lluniadu' yn cael ei gysylltu, er enghraifft, â chofnodi cynrychiadol Celfyddyd Gain a chanfyddiadau cyffredin ynghylch gafael draddodiadol ar dechneg. Fodd bynnag, mae llawer o gyd-destunau eraill ar gyfer lluniadu sy'n addas ar

gyfer meysydd eraill o Ddylunio Tecstilau i Animeiddio neu Ffotograffiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- defnydd pwrpasol o luniadu i gofnodi gwybodaeth;
- ei ddefnyddio wrth ddylunio, delweddu neu fynegi syniadau;
- ei botensial wrth gyfleu posibiliadau, megis trefniadau cyfansoddiadol.

Gall lluniadu fod ar ffurf brasluniau, astudiaethau arsylwi dadansoddol, byrddau stori, brasluniau bawd, cynlluniau, gwaith bras, astudiaethau arbrofol neu fynegiannol, modelu 2 neu 3-D, dyluniadau neu olygon manwl.

Gellir lluniadu neu gofnodi gan ddefnyddio offer digidol fel rhaglen 'stylus' a meddalwedd, neu gyfryngau traddodiadol megis siarcol neu ysgrifbin. Yn yr un modd gall lluniadu fod yn hynod effeithiol wrth gyfuno offer a thechnolegau digidol â phrosesau mwy traddodiadol.

Gwobrwyir tystiolaeth o luniadu fel rhan annatod o'r broses asesu yn hytrach na dyfarnu dyraniad penodol o farciau ar draws UG ac Uned 2 ac Uned 3 Safon Uwch.

Enghreifftiau o luniadu a ddefnyddiwyd at ddibenion gwahanol mewn amrediad o deitlau

**Ysgrifennu Estynedig**

Mae'r arweiniad canlynol yn ymwneud yn benodol ag Ymchwiliad Personol Safon Uwch; fodd bynnag, dylid annog defnydd addas, perthnasol o ysgrifennu estynedig ym mhob uned. Mae'n bwysig cydnabod bod mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr eisoes yn bodloni'r gofynion hyn yn y fanyleb gyfredol.

Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i ragor o bwyslais gael ei roi ar ysgrifennu estynedig, rhoddwyd sylw i ddau gwestiwn pwysig:

**1. Beth yw ystyr ysgrifennu estynedig?**

Diffiniwyd y term yn syml fel adrannau neu flociau o leiafswm o 200 gair. Dylai pob ysgrifennu estynedig ystyried yr angen am ddilyniant a chydlyniad.

**2. Beth yw prif ddiben ysgrifennu estynedig?**

Mae’n ofynnol cael lleiafswm o **400** gair yn dystiolaeth ar gyfer AA1. Mae hyn er mwyn galluogi dysgwyr i ddatblygu dadl mewn digon o ddyfnder ac i ddangos dyfnder priodol o ddealltwriaeth feirniadol. Ystyrir hyn yn adran AA1 y cynllun marcio ar gyfer yr Ymchwiliad Personol. Gall y darnau canlynol o'r fanyleb fod yn ddefnyddiol o ran rhoi arweiniad pellach.

### Ffurfiau ar ysgrifennu estynedig

**(**O Adran 2.3 y Fanyleb)
Gall deunydd ysgrifenedig estynedig beirniadol, cyd-destunol a dadansoddol fod ar amrywiaeth o ffurfiau, fel astudiaeth bersonol, traethawd darluniadol, cyflwyniad digidol neu flog, taflenni astudiaeth ddarluniadol, adroddiad ysgrifenedig, dyddlyfr, erthygl neu adolygiad, a dylai adlewyrchu ar waith y dysgwr a gwaith eraill.

**Bodloni pob un o'r Amcanion Asesu trwy ysgrifennu estynedig**
Rhaid cyflwyno lleiafswm o 400 gair o ysgrifennu estynedig ynghyd â thystiolaeth weledol a thystiolaeth arall er mwyn bodloni gofynion AA1. Gellir defnyddio ysgrifennu estynedig (ynghyd â thystiolaeth weledol a thystiolaeth arall), i ymwneud ag Amcanion Asesu eraill, gan ddibynnu ar natur yr ymchwiliad.

Yn AA4, er enghraifft, gall dysgwyr ysgrifennu'n estynedig er mwyn ychwanegu ystyr i'w gwaith ac i werthuso'r prosesau a ddefnyddiwyd i wireddu eu bwriadau. Yn AA3, gallant ddefnyddio ysgrifennu estynedig, ynghyd â lluniadu, fel ffordd o gofnodi arsylwadau a dangos dyfnder mewnwelediad i bwnc eu hymchwiliad a myfyrio'n feirniadol ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt. Yn AA2, gellid defnyddio sylwebaeth ysgrifenedig i ystyried y perthnasoedd rhwng dulliau gweithio ymarferol a chanlyniadau yn ogystal â pharhau i adolygu'r rhain.

Yn achos AA2, AA3 neu AA4, rhaid cyflwyno'r ysgrifennu estynedig mewn adrannau o leiafswm o 200 gair.

Nid bwriad ysgrifennu estynedig yw disodli anodi ysgrifenedig cryno fel a ddefnyddir, er enghraifft, ynghyd â lluniadau mewn llyfrau braslunio neu lyfrau nodiadau dylunio. Anogir yr arfer da hwn. Fodd bynnag, ni fydd anodi o'r fath yn ffurfio rhan o'r gofyniad lleiaf o 1000 gair ar gyfer ysgrifennu estynedig.

O ran lluniadu, gwobrwyir tystiolaeth o ysgrifennu estynedig fel rhan greiddiol y broses asesu, yn hytrach na thrwy ddyfarnu dyraniad penodol o farciau. Fodd bynnag, ystyrir tystiolaeth o ysgrifennu estynedig yn y cynllun marcio ar gyfer yr Ymchwiliad Personol.

**(O'r Cynllun Marcio ar gyfer yr Ymchwiliad Personol)**
**Band Marciau Uchaf AA1**

- Datblygu syniadau mewn ffordd soffistigedig a thrylwyr trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chynhwysfawr cydlynol.
- Mae dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig trylwyr a chraff yn cael ei gymhwyso at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill hynod o berthnasol, gan gynnwys defnydd craff a thrwyadl o eirfa arbenigol briodol.
- Ymatebion a dehongliadau aeddfed a chynhwysfawr wedi'u cyfoethogi'n gyson gan ddealltwriaeth dda iawn o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau cysylltiedig.

Rhoddir arweiniad pellach ar ysgrifennu estynedig, gan gynnwys ei ddibenion a'i fformatau posibl, yn Atodiad B y fanyleb.

**Sut mae athrawon eraill yn arwain eu dysgwyr wrth iddynt gynhyrchu ymatebion ysgrifenedig?**

Lluniwyd yr adran hon o ymatebion grwpiau trafod o athrawon a darlithwyr a fynychodd sesiynau DPP. Gofynnwyd iddynt ddisgrifio dulliau o gynhyrchu ymatebion ysgrifenedig yr oeddent wedi gweld eu bod yn llwyddiannus. Mae'r syniadau a'r awgrymiadau a gyflwynwyd wedi'u golygu, eu cyfuno a'u hestyn er mwyn cynnig adnodd o ddefnydd posibl y gellir ei ddefnyddio i gefnogi/cyfoethogi strategaethau addysgu a dysgu.

**Grŵp 1**
Gofynnwch i ddysgwyr feddwl am y dull ymateb – Gellir defnyddio cyflwyniadau PowerPoint, blogiau, dictaffonau a ffonau symudol fel modd o wthio'r cwch i'r dŵr o ran cael ymatebion personol.

**Cynllunio ymweliadau uniongyrchol** – Mae angen cynllunio ymweliadau ag orielau, gweithdai, arddangosfeydd gan ystyried amseru'r ymweliadau hyn yn ofalus. Dylid addysgu sgiliau i'r dysgwyr a rhoi tasgau rhagarweiniol iddynt cyn yr ymweliad fel y gallant fanteisio i'r eithaf ar hyn.

**Cynllunio a threfnu** – Gosodwch ddyddiadau cau interim i drefnu'r gwaith a gwnewch yn siŵr fod pob dysgwr yn cadw atynt. Nodwch brofforma gyda dyddiadau.

**Egluro bwriadau** – Dylech chi amserlennu cyflwyniadau i gyfoedion, o bosibl gan ddefnyddio PowerPoint, fideo, gwrthrychau go iawn, i ganolbwyntio arnynt a gorfodi'r dysgwyr i feddwl am yr hyn y maen nhw'n bwriadu ei wneud. Defnyddiwch adborth gan ddysgwyr eraill i egluro a mireinio'r bwriadau.

**Grŵp 2**
Ar ddechrau'r cwrs, strwythurwch y gwaith o gwmpas artistiaid perthnasol, gan ddefnyddio llyfr braslunio i ddogfennu ymatebion personol. Mae'r dysgwyr yn gweithio mewn parau i gyfweld â'i gilydd, ac maen nhw'n recordio hyn. Gweithir ar drawsgrifiadau o gyfweliadau i ehangu/esbonio syniadau personol ymhellach a defnyddir y rhain yn dystiolaeth o'u dealltwriaeth. Lle y bo'n briodol, gellir fframio cyfweliadau o gwmpas Cynnwys, Ffurf, Proses a Naws. Yn yr ail dymor, dechreuwch ffurfioli hyn i'w ddatblygu'n astudiaeth gyd-destunol/Ymchwiliad Personol. Wrth i hyn fynd rhagddo, mae'r dysgwyr yn rhoi cyflwyniadau am y gwaith sydd ar y gweill i'w cyfoedion, gan wahodd adborth ac asesu.

**Grŵp 3**
Ymgynghorwch â chydweithwyr yn yr adrannau Saesneg a Hanes i weld sut maen nhw'n datblygu sgiliau beirniadol a strategaethau ysgrifennu. Dewch ynghyd lle y bo'n bosibl i wneud gwaith ar y cyd, megis defnyddio paentiadau hanesyddol i addysgu sgiliau dadansoddi ac ymchwilio neu ysgrifennu barddoniaeth i gyd-fynd â gweithiau celf. Defnyddiwch sesiynau grŵp i adolygu portffolios ac i drafod ymysg eich gilydd pa arsylwadau fyddai fwyaf addas ar gyfer enghreifftiau o waith a ddewiswyd. Yn dilyn cyfnewid syniadau anffurfiol rhwng yr athro a'r dysgwyr yn ystod dosbarthiadau, anogwch y dysgwyr i gymryd nodiadau er mwyn datblygu sgiliau gwerthuso. Cadwch ffolder o enghreifftiau ysgrifenedig a gwblhawyd yn flaenorol. Defnyddiwch barau o waith wedi'u dewis fel y gall dysgwyr gymharu a chyferbynnu, gan nodi mathau gwahanol o wybodaeth: bywgraffyddol, disgrifiadol, gwerthusiad personol; gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau. Gwnewch yr un fath gydag enghreifftiau ymarferol a gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu hymatebion.

**Grŵp 4**
Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio nodiadau ysgrifenedig o'r diwrnod cyntaf, gan ddangos enghreifftiau o ansawdd uchel iddyn nhw. Dylai hyn osgoi sylwadau 'felly beth' a'r hollol amlwg, megis, 'Gwnes i'r lluniad hwn â phensil'. Dylai ysgrifennu estynedig roi tystiolaeth o fewnwelediad a dealltwriaeth ddyfnach. Wrth ymateb i weithiau celf, gall cyfeirio at y geiriau hyn fod yn ddefnyddiol – Pwy, Beth, Ble, Pryd, Pam? Gweithiwch trwy dacsonomeg Bloom (‘Disgrifiad’, ‘Dadansoddiad’, ‘Dehongliad’, ‘Gwerthusiad’ a ‘Dylanwad’), o farn sydd wedi'i seilio ar ffeithiau i farn werthusol, er mwyn helpu i ddatblygu ymatebion o radd uwch. Defnyddiwch gridiau cyfeirio sydyn fel y gall dysgwyr dynnu gwybodaeth sylfaenol allan yn gyflym. Cynhyrchwch un i bob dysgwr ei gwblhau, yna gallant eu cyfnewid a'u rhannu. Gall hwn fod yn weithgaredd gwerthfawr er mwyn adeiladu sgiliau astudio.

**Grŵp 5**
Sefydlwch reolau sylfaenol, megis bod rhaid i bob ymateb gael ei ysgrifennu'n bersonol. Dim torri a gludio. Dylid dethol ac ymateb i dri artist trwy bethau tebyg a gwahanol, hefyd mewn ffordd ymarferol. Dylid astudio un arlunydd mewn mwy o ddyfnder a, lle y bo'n bosibl, dylid cysylltu ag ef neu hi a chynnal cyfweliad. Rhaid i ffurf y cyflwyniad adlewyrchu'r gwaith/gweithiau celf a astudir. Darparwch daflen sy’n dangos sut gall astudiaeth gyd-destunol ddylanwadu ar syniadau a bwriadau. Mae'r athro'n dangos ei waith ei hun ac yn dangos sut mae astudio gwaith eraill wedi dylanwadu arno.

**Grŵp 6**
Yn aml gall dysgwyr siarad am weithiau celf a'u dadansoddi'n feirniadol, gan gynnwys eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddysgwyr. Maen nhw'n mwynhau trafodaethau/dadleuon beirniadol yn fwy nag y maen nhw'n mwynhau ysgrifennu'n feirniadol. Mae angen eu haddysgu sut mae dogfennu'r trafodaethau hyn mewn modd mor ddi-boen ag sy'n bosibl. Weithiau gellir cuddio poen ysgrifennu trwy ffurfiau arloesol ar ysgrifennu, megis nodiadau cyflwyno wedi'u darlunio (gan ddefnyddio cardiau post), llunio taflen neu bosteri gwybodaeth bychain ar gyfer arddangosfa. Peidiwch â thynnu sylw at gyfrif geiriau gan y gall hyn ymddangos fel mynydd i'w ddringo. Defnyddiwch 'strategaeth sut mae bwyta eliffant' – cnowch ddarnau hawdd eu trin a gwneud hynny fesul tamaid. Gwnewch yn siŵr fod cydlyniad mewn ymateb parhaus. Dangoswch ddelwedd i ddysgwyr a gofyn iddynt holi cwestiynau i ddarganfod beth maen nhw eisiau gwybod amdani. Gellir defnyddio rhestr wirio briodol, megis ‘Cynnwys’, ‘Ffurf’, ‘Proses’ a ‘Naws’ neu SPEAR: ‘Cymdeithasol’, ‘Gwleidyddol’, ‘Addysgol’, ‘Artistig’ a ‘Crefyddol’. Gellir defnyddio hyn fel fframwaith ar gyfer llunio atebion ac mae'n sicrhau bod ymatebion yn bersonol ac yn ymchwiliol. Gall hyn wneud iddynt deimlo mai nhw sy'n rheoli'r astudiaeth a'u bod yn canolbwyntio ar yr hyn maen nhw'n dymuno ei ysgrifennu.

**Grŵp 7**
Cyflwynwch weithgareddau ‘cymharu a chyferbynnu’ unigol, pâr a grŵp gan ddefnyddio diagramau Venn. Gosodwch dasg wythnosol, sef cyflwyno taflen A3 sy'n ymwneud ag arddangosfa yr ymwelwyd â hi, gwaith celf, crefft neu ddylunio a astudiwyd, proses a ddysgwyd neu archwiliad gweledol a wnaed. Mae'r dysgwyr yn cynhyrchu taflen feirniadol/gyd-destunol gyda ffocws ar y cynnwys a'r syniadau mewn gwaith celf neu ar ddull penodol sy'n cysylltu â'u hastudiaethau ymarferol eu hunain. Wedyn maen nhw'n cynhyrchu taflenni pellach sy'n amlwg yn adeiladu ar y daflen astudio flaenorol ac yn ei hestyn.

**Grŵp 8**
Gall defnyddio sgiliau allweddol ehangach, fel datrys problemau, fod yn ddefnyddiol wrth lunio syniadau project, cynllunio a gwerthuso. Trafodaeth mewn parau lle mae'r dysgwr a gynhyrchodd lwyth o waith yn ei arddangos ac yn disgrifio ei nodweddion allweddol, gan gynnwys cysylltiadau cyd-destunol. Mae'r partner yn cofnodi'r hyn a ddywedir ar ffurf pwyntiau bwled ac, ar ddiwedd y cyflwyniad, yn rhoi'r rhain i'r cyflwynydd sy'n eu defnyddio'n sail i set o nodiadau ysgrifenedig. Lluniwch fframwaith o gwestiynau allweddol y mae'r dysgwyr yn eu defnyddio i ddadansoddi gweithiau celf. Mae hyn yn annog syniadau beirniadol, yn hybu mwy o ddyfnder dealltwriaeth ac yn eu hannog i beidio â chynnwys manylion bywgraffyddol diangen. Defnyddir hyn mewn strwythur ehangach, sy'n nodi prif gamau datblygu dealltwriaeth gyd-destunol: cyflwyniad i uned, cyd-destun y ffynonellau cyfeirio, esboniad manwl o weithiau allweddol. Taniwch syniadau'n ymwneud â gweithiau celf dylanwadol, gan nodi pwyntiau o ddiddordeb allweddol. Defnyddiwch hyn i gyfeirio ymchwiliadau ymarferol ac, ar ôl hyn, ysgrifennwch yr hyn a ddarganfuwyd. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod gwaith ymarferol yn dangos y cysylltiad â chyfeiriadau cyd-destunol ac yn cynnal cyfnewid gwybodaeth rhwng y ddau.

**Grŵp 9**
Mae dysgwyr yn caffael dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol trwy adeiladu sgiliau priodol. Datblygwch y rhain mewn gwersi wythnosol sy'n ymdrin ag iaith weledol, cyfansoddiad, cyfrannedd, dibenion a bwriadau weithiau celf, crefft a dylunio gwahanol, gydag aseiniadau addas wedi'u gosod er mwyn cynyddu hyder a chymhwysedd yn raddol. Gwnewch ddefnydd o faterion celf/dylunio amserol, fel Gwobr Turner neu Artes Mundi. Casglwch erthyglau newyddion a recordiwch gyfweliadau teledu a defnyddio'r rhain yn ffocws ar gyfer trafodaethau grŵp. Yna mae'r dysgwyr yn ysgrifennu eu syniadau a'u hymatebion eu hunain i'r artistiaid ar y rhestr fer. Cyfeiriwch at enghreifftiau o gloriannu beirniadol y gall dysgwyr fod yn gyfarwydd â nhw, o *X Factor*, *Strictly Come Dancing*, *The Apprentice*, i *Newsnight*

*Arts Review*. Hefyd edrychwch ar adolygiadau o ffilmiau, dramâu, llyfrau ac arddangosfeydd mewn papurau newydd. Nodwch a thrafod y sgiliau sydd ynghlwm wrth hyn a pha mor effeithiol y defnyddir iaith, sut caiff pwyntiau eu henghreifftio a beth gellir ei ddysgu a allai fod yn ddefnyddiol wrth adeiladu dealltwriaeth gyd-destunol.

**Grŵp 10**
Gosodwch dasg fisol, sef ymweld yn annibynnol ag arddangosfa, adeilad nodedig, siop nwyddau dylunydd, ffilm neu ddrama. Mae pob dysgwr yn dogfennu hyn yn weledol ac yn ysgrifenedig gan gynnwys sylwebaeth bersonol feirniadol. Rhoddir taflen awgrymiadau i'r dysgwyr sy'n amlinellu'r hyn allai fod yn ofynnol mewn gwerthusiad beirniadol, ynghyd ag atgynhyrchiad o waith celf, crefft neu ddylunio. Maen nhw'n cwblhau gwerthusiad yn y dosbarth yn annibynnol. Yna mae'r athro'n marcio'r rhain ac yn rhoi adborth ysgrifenedig a llafar adeiladol. Wedyn gallai'r dysgwr gynhyrchu fersiwn ddiwygiedig gan ymateb i'r cyngor a roddwyd. Anogwch y dysgwr i ddewis thema y mae ganddo ddiddordeb personol ynddi neu hyd yn oed yn teimlo'n angerddol amdani. Mae hefyd yn bwysig bod y thema'n addas i gael ei mynegi'n weledol/cyffyrddol. Yn gyffredinol, maen nhw'n fwy hyderus wrth ysgrifennu am rywbeth y maen nhw'n gyfarwydd ag ef.

**Grŵp 11**
Darparwch nifer o adolygiadau o arddangosfeydd o bapurau newydd. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen trwy'r rhain a gwneud nodiadau cryno cyn sesiwn drafod. Ymwelwch fel grŵp ag oriel fawr a gofynnwch i bob dysgwr ddewis ar gyfer ei hun dri neu bedwar gwaith sydd o ddiddordeb arbennig iddo ac yr hoffai ysgrifennu amdano. Maen nhw'n gwneud nodiadau a brasluniau perthnasol yn yr oriel ac mae'r athro'n darparu templed tudalen papur newydd lle maen nhw'n gosod delweddau addas ac yn ysgrifennu adolygiad. Gellir dilyn yr un math o ddull wrth ymweld â sioe ffasiynau, arddangosfa ffotograffiaeth, ffilm neu gynhyrchiad theatr. Hefyd, gellid defnyddio cyflwyniad teledu neu radio (heb ddeunydd gweledol) yn lle'r adolygiad papur newydd. Gwahoddwyd arlunydd i roi cyflwyniad o'i waith i ddysgwyr. Arweiniodd drafodaeth am ei ddulliau yn y gorffennol ac yn y presennol a chynhaliodd weithdy a gafodd effaith arwyddocaol. Roedd hyn yn galluogi'r dysgwyr i ysgrifennu'n frwdfrydig, a chyda mewnwelediad, am eu profiad a'r hyn roedden nhw wedi'i ddysgu am gelf gyfoes 'anodd'.

**Grŵp 12**
Cynhaliwch weithgareddau myfyrio a chynnydd bob pythefnos lle mae dysgwyr yn trafod y rhain â'r athro neu â phartner ac yn ysgrifennu amdanynt gan ddefnyddio iaith briodol. Ychwanegwch adran dynnu allan neu daflenni at lyfrau braslunio lle gellir ysgrifennu sylwadau estynedig. Mae'r dysgwyr yn gweithio mewn parau yn cyfweld â'i gilydd gyda'u gwaith. Yna maen nhw'n ysgrifennu'r rhain fel erthygl nodwedd cylchgrawn, gan ddefnyddio templed gosodiad a lluniau o'r artist ac eitemau o waith dethol. Neu, gallent ysgrifennu adroddiad hunangofiannol yn y person cyntaf. Ceisiwch roi cynnig ar fformatau gwahanol i gyflwyno cynnwys tebyg. Ysgrifennwch sgwrs ffuglennol, ond llawn gwybodaeth, neu gyfres o gofnodion dyddiadur ar-lein rhwng dau arlunydd, ffotograffydd neu ddylunydd. Gallai hyn fod ar ffurf sgript drama neu ffilm yn ogystal.

## Cwestiynau cyffredin

**C1 A all ymgeisydd drosglwyddo o sefydliad neu ganolfan ddyfarnu arall?**
**A1:** Gall ymgeiswyr unigol drosglwyddo am amryw o resymau ond ni all carfannau o ymgeiswyr drosglwyddo. Rhaid i ymgeiswyr sy'n trosglwyddo o fwrdd arholi arall dylai barhau gyda'i Faes Astudio gwreiddiol. Rhaid i ymgeiswyr sy'n trosglwyddo i fwrdd arholi gwahanol lenwi ffurflen Trosglwyddo Credyd rhwng cyrff dyfarnu y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) cyn 21 Hydref i fod yn gymwys am gyfres yr Haf nesaf. Os bydd ymgeisydd yn trosglwyddo i ganolfan CBAC arall yna rhaid defnyddio'r un Dangosydd Ymgeisydd Unigryw (UCI).

**C2: Pryd rydw i'n cyflwyno fy nghofrestriadau rhagarweiniol?**
**A2:** Rhaid cyflwyno cofrestriadau rhagarweiniol erbyn 10 Hydref. (Os nad yw eich canolfan yn cyflwyno cofrestriadau rhagarweiniol y byddwch wedyn yn mynd ymlaen i gyflwyno cofrestriadau terfynol ar eu cyfer, efallai na fyddwch yn derbyn yr holl ddeunyddiau asesu a/neu bapurau arholiad angenrheidiol.)

**C3: Ydy'r holl deitlau'n cyfrif mewn tablau perfformiad?**
**A3:** Ydyn. Mae'r holl deitlau'n cyfrif ar wahân mewn tablau perfformiad.

**C4: Ble gallaf ddod o hyd i'r codau cofrestru ar gyfer pob uned?**
**A4:** Bydd y rhain ar gael o fis Medi ac fe'u cyhoeddir yn y llyfryn *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau*.

**C5: Beth yw teitlau'r unedau ac uchafswm y marciau crai?**
**A5: Cymhwyster UG**
Uned 1: Ymholiad Creadigol Personol (160 marc)

**Cymhwyster Safon Uwch**
Uned 2: Ymchwiliad Personol (160 marc)
Uned 3: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (100 marc)

**C6: A ellir darparu Cynllun Gwaith i athrawon ar gyfer cyflwyno'r fanyleb newydd?**
**A6:** Un o lwyddiannau addysgu celf, crefft a dylunio yn y DU yw bod maes mawr o greadigrwydd yn y cwricwlwm yn cael ei feithrin gan ddulliau addysgu creadigol ac amrywiol. Felly mae CBAC yn parchu rôl broffesiynol athrawon a'r cyd-destunau gwahanol y maen nhw'n gweithio ynddynt. Mae'n ceisio cefnogi ac annog amrywiaeth o'r fath yn frwd trwy ddarparu fframweithiau hyblyg y gall addysgu a dysgu creadigol ffynnu ynddynt, yn hytrach na hyrwyddo'r syniad ffug bod rhyw fath o lasbrint llwyddiannus ar gyfer addysgu creadigol.

O edrych ar beth o'r deunydd enghreifftiol a'r deunydd atodol arall sy'n gysylltiedig â'r canllaw hwn, bydd hi'n eglur bod llawer o ddulliau gwahanol o gyflwyno cyrsiau llwyddiannus ar draws yr amrediad eang o deitlau yn y fanyleb. Mae athrawon yn defnyddio llawer o strategaethau gwahanol wrth lunio Cynlluniau Gwaith, gan ystyried y dysgu blaenorol, gallu unigol a diddordebau unigryw pob dysgwr, yn ogystal â'r adnoddau sydd ar gael a'u maes arbenigedd eu hunain. Rhaid ystyried maint pob grŵp dysgwyr a dyraniad yr amserlen ar gyfer y rhain yn ogystal. Mae'r ffactorau eraill yn cynnwys faint o arian y pen sydd ar gael a pha mor hygyrch yw lleoliadau diddorol fel orielau ac amgueddfeydd.

**C7: Pa mor bwysig yw'r broses greadigol a sut gallaf roi sylw cyfartal i bob un o'r Amcanion Asesu?**
**A7:** Rhaid i greadigrwydd fod wrth wraidd yr holl waith a wneir ar gyfer UG a Safon Uwch ac mae tystiolaeth o'r *broses* greadigol cyn bwysiced â *chanlyniadau* creadigol. Nid oes rheswm pam na ddylai gwaith ysgrifenedig fod mor greadigol â gwaith ymarferol ac mae hyn

yn gofyn am ystyried fformatau arloesol yn ogystal â chynnwys arloesol. Mae pwysoli'r pedwar Amcan Asesu yn gyfartal sy'n golygu bod yr un dyraniad o farciau wedi'i neilltuo iddynt. Felly mae'n hanfodol bod y dystiolaeth a gyflwynir i'w safoni yn rhoi sylw mor gyfartal ag sy'n bosibl i bob un o'r Amcanion Asesu. Mae sawl ffordd o gyflawni hyn, gan gynnwys cynllunio cychwynnol ac adolygu'r gwaith sydd ar y gweill yn gyson trwy ddefnyddio Rhestr Wirio'r Amcanion Asesu i Ddysgwyr – yr un strwythur i bob uned. Mae dulliau eraill yn cynnwys nodi tystiolaeth berthnasol gan ddefnyddio marcwyr ffelt o liwiau gwahanol, dotiau gludiog lliw neu nodiadau post-it ar gyfer pob un o'r Amcanion Asesu.

**C8: Oes angen tystiolaeth o luniadu ar draws pob teitl ac ar ba ffurf dylai hyn fod?**
**A8:** Mae manyleb UG/Safon Uwch Celf a Dylunio yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau i wneud y canlynol: 'cofnodi profiadau ac arsylwadau, mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddefnyddio lluniadu a ffurfiau gweledol priodol eraill; ymgymryd â gwaith ymchwil; a chasglu, dewis a threfnu gwybodaeth weledol a gwybodaeth briodol arall'. Dylai'r ffocws hwn annog dysgwyr i werthfawrogi arwyddocâd lluniadu yn yr ystyr ehangaf trwy adnabod ac adolygu sut mae'n bwydo'r broses greadigol ar draws y disgyblaethau.

**C9: Beth os mai dim ond tystiolaeth denau o luniadu y mae fy nysgwyr yn ei chyflwyno?**
**A9:** Nid oes dyraniad marciau penodol ar gyfer lluniadu ac nid oes cosb am beidio â chynnwys llawer o dystiolaeth o luniadu yn unrhyw un o'r unedau yn y fanyleb. Fodd bynnag, rhaid cydnabod hefyd fod lluniadu'n unigryw gan ei fod yn cynyddu gallu'r dysgwyr i weld ac i ddeall y byd gweledol a chyffyrddol. Yn bwysig, mae'n galluogi iddyn nhw feddwl yn weledol ac i gyfleu'r meddyliau hyn i eraill. Mae safonwyr, wrth asesu cyflwyniadau ar draws disgyblaethau gwahanol, yn cydnabod yn aml bod egni a chwmpas creadigedd y dysgwyr wedi'i gyfyngu gan ddiffyg delweddu syniadau trwy luniadu. At hynny, hyd yn oed os yw'r lefel cymhwysedd a enillwyd gan y dysgwyr yn gymharol fach, gallant ddefnyddio lluniadu'n bwrpasol o hyd i gofnodi gwybodaeth, delweddu syniadau a chyfathrebu posibiliadau. Felly, mae angen i bob dysgwr ddod yn gymwys yn y ffurfiau lluniadu sy'n briodol i'r opsiwn a astudir ganddynt.

**C10: Mae rhai o'm dysgwyr yn cael anhawster wrth gynhyrchu ysgrifennu estynedig. A gânt eu cosbi am hyn?**
**A10** Mae'r gofyniad am ysgrifennu estynedig – lleiafswm o 1000 gair mewn darnau 200 gair, ac ar gyfer AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol, 400 gair – yn berthnasol i Uned 2 Safon Uwch: Ymchwiliad Personol yn unig. Fodd bynnag, argymhellir yn gryf fod ysgrifennu estynedig yn cael ei ymgorffori, ble bynnag y bo'n briodol, fel ffurf ychwanegol ar dystiolaeth ym mhob uned. Eto i gyd, er nad oes cosb benodol am beidio â bodloni'r gofyniad hwn, mae'n rhan benodol o feini prawf asesu AA1. Golyga hyn na fyddai hi'n bosibl i safonwyr ddefnyddio'r dyraniad llawn o farciau ar gyfer tystiolaeth o Ddealltwriaeth gyd-destunol yn Uned 2. Er mwyn bod yn realistig, mae'n debygol y byddai pob dysgwr, bron, wedi gorfod cynhyrchu ysgrifennu estynedig yn rhan o'u cwrs TGAU Cymraeg neu Saesneg iaith, cyn astudio ar gyfer UG a Safon Uwch.

Dylai ysgrifennu estynedig mewn darnau 200 gair am bwnc y mae ganddynt ddiddordeb arbennig ynddo fod o fewn gallu'r rhan fwyaf o'r dysgwyr sy'n astudio ar y lefel hon.

*Sylwer bod cyfanswm o tua 160 gair yn yr ateb hwn!*

**C11: Oes angen llyfrau braslunio?**
**A11:** Nid oes angen llyfrau braslunio a/neu lyfrau nodiadau dylunio'n benodol ar gyfer unrhyw un o'r unedau ond, os cânt eu defnyddio'n briodol, gallant fod yn gofnodion amhrisiadwy o ymchwiliadau creadigol. Maen nhw'n gyfryngau arbennig o effeithiol i ddysgwyr gofnodi, trwy luniadu a dulliau eraill, dameidiau diddorol o wybodaeth, rhoi cynnig ar bosibiliadau myfyrgar ac archwilio defnyddiau a thechnegau fel rhan o astudiaeth

ymchwiliol. O dro i dro, cyfeirir at y rhain fel dyddiaduron gweledol ac, oherwydd hynny, byddant yn cynnwys syniadau bras a nodiadau gweledol heb eu gorffen. Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cydnabod ac yn cael eu haddysgu am werth gweithgarwch ymchwiliol o'r fath yn hytrach na'u gweld fel dull arall yn unig o gyflwyno darnau gwaith gorffenedig. Gellir esbonio hyn trwy gyfeirio at ddatrys problem mewn mathemateg lle ystyrir bod y 'gweithio allan' yr un mor bwysig â chael yr ateb cywir.

**C12: Pa mor fawr dylai llyfrau braslunio/llyfrau gwaith fod?**
**A12:** Gallant amrywio o faint poced i A2 ac mae rhai dysgwyr yn cyflwyno rhai o feintiau amrywiol sydd wedi cael eu defnyddio at ddibenion gwahanol. Os defnyddir maint A4 yn unig, gall dysgwyr weithio o dro i dro ar draws tudalen ddwbl (A3) neu hyd yn oed gynnwys dalen A2 wedi'i phlygu i mewn i'r llyfr. Gellir cynnwys mathau gwahanol o bapur hefyd fel hyn os oes angen. Dylai enw'r dysgwr, y ganolfan a rhif yr ymgeisydd fod yn eglur ar bob llyfr braslunio/llyfr gwaith.

**C13: A ddylai dysgwyr ddangos proses gam wrth gam yr holl bethau y maen nhw'n eu gwneud?**
**A13:** Mae'n bwysig bod tystiolaeth o bob 'llwybr creadigol' wedi'i chynnwys mewn cyflwyniadau, ond nid yw hyn yn golygu bod **pob** cam yn y broses honno'n cael ei gyflwyno i'w asesu. Hefyd rhaid i ymgeiswyr ddangos eu gallu i ddewis yr hyn sy'n hanfodol berthnasol a'r hyn nad yw felly. Yr hyn sydd ei angen yw tystiolaeth o bob cam **arwyddocaol** yn y broses o wneud, gan roi sylw dyledus i Restr Wirio'r Amcanion Asesu i Ddysgwyr – yr un strwythur i bob uned a chael cydbwysedd tystiolaeth ar draws y pedwar Amcan Asesu. Ni fydd safonwyr eisiau palu trwy bortffolios wedi'u gorlwytho gan fod hyn yn ei gwneud hi'n anodd dod i farn eglur, felly mae gwaith dethol a chyflwyno gan ddysgwyr yn allweddol. Gyda'r fanyleb newydd, disgwylir na fydd y cyflwyniadau ar gyfer pob un o'r unedau asesu'n fwy o ran maint nag y maen nhw ar gyfer y fanyleb gyfredol.

**C14: Faint o ddatblygu syniadau ddylai fod yn amlwg ac a oes rhaid i'r datblygiad i gyd fod yn y teitl a ddewiswyd?**
**A14:** Dylai fod digon o dystiolaeth er mwyn dangos pob cam arwyddocaol yn y broses o ddatblygu syniadau. Fel problem fathemategol, mae 'gweithio allan' ateb o leiaf cyn bwysiced â chynhyrchu'r ateb terfynol. Yn sicr nid yw'n ofyniad bod yr holl ddatblygiad wedi'i gyfyngu i'r teitl a ddewiswyd, ond dylai'r cyfan fod yn berthnasol i fwriadau'r dysgwr pa bynnag ddisgyblaethau a ddefnyddiwyd. Dylid ystyried yr ateb i'r cwestiwn blaenorol yn ogystal.

**C15: A ddylai dysgwyr gynnwys sylwadau ac anodi yng nghorff y gwaith?**
**A15:** Dylent, oherwydd gall hyn sicrhau bod pob gwaith ymarferol ac ysgrifenedig wedi'i integreiddio'n bwrpasol. Dylai fod yn ddull naturiol o weithio fel nad yw dysgwyr yn mynd ati i ychwanegu sylwebaeth ac anodi fel gweithgaredd 'atodol' neu'n dasg y mae'n well ei gadael hyd nes i'r gwaith ymarferol gael ei gwblhau. Ar gyfer Ymchwiliad Personol Safon Uwch rhaid nodi nad yw anodi cryno i fod yn rhan o'r cyfrif geiriau o 1000 gair.

**C16: A ddylid datblygu'r portffolio ar un thema, neu a allai ymgeisydd gynnwys cyfres o themâu nad oes ganddynt gysylltiad â'i gilydd?**
**A16:** Mae cyfeirio at y darnau canlynol o'r fanyleb yn rhoi arweiniad defnyddiol:

**Ymholiad Creadigol Personol**
'Bydd hyn yn eu galluogi [y dysgwyr] i ddewis y pwnc neu thema ar gyfer eu hymholiad personol a chynllunio'r ffordd i ymgymryd â'r ymholiad. Penllanw'r uned hon yw project/portffolio yn archwilio thema, cysyniad neu friff dylunio penodol a ddylai fod o arwyddocâd personol i'r dysgwr.'

**Felly hefyd, ar gyfer yr Ymchwiliad Personol**

'Mae'r Ymchwiliad Personol yn cynnwys prif broject/portffolio ymchwiliol beirniadol, ymarferol a damcaniaethol manwl yn seiliedig ar themâu a chanlyniad/au...'

**Bydd yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol,** fel mae ei deitl yn awgrymu, yn gofyn i'r dysgwr ddatblygu ymateb i un o'r ysgogiadau a roddwyd.

Dylai **Datganiad y Dysgwr,** y mae'n rhaid ei lenwi ar gyfer pob un o'r unedau asesu, roi cyd-destun eglur ar gyfer cynhyrchu'r portffolio. Yn ogystal gellid cyfeirio at sgiliau cyflwyno fel y'u disgrifiwyd yn gysylltiedig ag AA4 a allai gynnwys:

- gwneud cysylltiadau eglur rhwng elfennau gwahanol y cyflwyniad;
- cyflwyno gwaith mewn trefn resymegol sy'n hawdd ei dilyn;
- gwneud i ddiben a chyd-destun y gwaith fod yn eglur, gan ddangos sut mae'r bwriadau wedi'u gwireddu.

**C17: Faint o amser dylid ei dreulio ar gynhyrchu'r portffolio?**
**A17:** Dylid cyflwyno Ymholiad Creadigol Personol UG ac Ymchwiliad Personol Safon Uwch fel portffolios o waith. Nid oes dyraniad amser wedi'i bennu neu wedi'i argymell gan y bydd graddfeydd amser yn amrywio rhwng ymgeiswyr gwahanol. Fodd bynnag, fel arweiniad cyffredinol iawn, ar gyfer ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer UG, mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r tymor cyntaf yn cael ei roi i gwrs sylfaenol pan ddatblygir sgiliau hanfodol. Gellid datblygu gwaith portffolio o ddiwedd mis Ionawr i ddiwedd mis Ebrill/dechrau mis Mai.

Ar gyfer Safon Uwch, mae'r rhan fwyaf o'r portffolio'n debygol o gael ei gynhyrchu yn ystod tymor yr hydref a'i gwblhau yn ystod y mis Ionawr cyn yr asesiad Safon Uwch yn yr haf. Mae'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn dechrau ar 1 Chwefror ac argymhellir yn gryf na ddylai'r Ymchwiliad Personol barhau y tu hwnt i'r dyddiad hwn fel y rhoddir sylw llawn i'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

**C18 Sut dylai ymgeisydd drefnu ei bortffolio?**
**A18:** Dylai'r ateb i'r cwestiwn blaenorol fod yn fan cychwyn defnyddiol. Dylai trefniadaeth y portffolio roi sylw hefyd i:

- Restr Wirio'r Amcanion Asesu i Ddysgwyr – yr un strwythur i bob uned fel bod pob Amcan Asesu yn cael sylw cyfartal;
- cydbwysedd priodol rhwng prosesau a chanlyniadau;
- lled a dyfnder addas o ran cyfryngau, technegau a phrosesau sy'n berthnasol i'r maes astudio (teitl) a ddewiswyd.

Dylai'r fformat y cyflwynir y portffolio ynddo fod yn addas i bwnc a diben y gwaith, fel bod y cyflwyniad yn atyniadol.

**C19: A all y portffolio fod yn hollol ddigidol?**
**A19:** Gall, gall y portffolio fod yn hollol ddigidol os yw hyn yn briodol i'r gwaith a wneir a bod hyn yn galluogi'r dysgwr i roi sylw llawn a llwyddiannus i bob agwedd ar yr Amcanion Asesu. Mae'n hanfodol bod sylw llawn yn cael ei roi i ddogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses greadigol, gan fod hon yn aml yn elfen wan mewn cyflwyniadau digidol. Gellir defnyddio meddalwedd addas fel bod modd ychwanegu anodi at ddelweddau digidol. Gellir cynnwys lluniadu, er enghraifft, trwy ddefnyddio 'stylus' a llechen graffig neu'n syml trwy sganio lluniadau a dynnwyd â llaw.

**C20: Mae fy nysgwyr yn mwynhau copïo gwaith arlunwyr ac maen nhw'n dda am wneud hynny. A gânt eu gwobrwyo'n llawn am hyn?**

**A20:** Hyn a hyn o werth yn unig all fod i wneud dim ond copïo atgynhyrchiadau o waith arlunwyr oni bai bod y nod yn golygu bod modd cyfiawnhau'r dull. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, gwneir copïo fel nod ynddo'i hun neu, ar y gorau y mae'n datblygu cymhwysedd technegol, yn hytrach na meddwl creadigol. Oherwydd hyn, mae'n debygol mai prin y caiff ei wobrwyo a hyd yn oed yn llai na hynny os yw'n rhan sylweddol o'r cyflwyniad.

**C21: A ellir cynnwys ffotograffau/atgynhyrchiadau o waith eraill?**
**A21:** Gellir, yn yr un ffordd ag y gellir cynnwys dyfyniadau mewn ymatebion ysgrifenedig, ond BOB AMSER ac ym MHOB enghraifft gan gydnabod yn eglur mai gwaith eraill ydyw. Ni ddylai fod unrhyw eithriadau nac amryfusedd. Gellir ystyried bod methu cydnabod manylion o'r fath yn systematig fel camymddwyn a all arwain at ganlyniadau difrifol. Dylid ymdrin â hyn yn drylwyr ar ddechrau'r astudiaethau.

**C22: Beth yw'r rheoliadau o ran y 15 awr o dan amodau arholiad?**
**A22:** Mae'r darnau canlynol wedi'u codi o lyfryn y CGC, *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau* sy'n ymwneud yn benodol ag arholiadau Celf. Gellir diweddaru neu ddiwygio'r ddogfen hon yn y dyfodol:

Tudalen 13, pwynt 4.4: '**Ar gyfer arholiadau Celf**, **rhaid** i'r ganolfan ddarparu deunyddiau celf, a chyfryngau, deunyddiau a thechnoleg dylunio priodol.

Tudalen 15, pwynt 5.5: '**Rhaid** cael profion Celf wedi'u hamseru dan amodau fydd yn rhoi cyfle i'r holl ymgeiswyr gwblhau eu tasgau a dangos eu gwir lefel o gyrhaeddiad yn y pynciau dan sylw.'

Tudalen 18, pwynt 6.3: '**Rhaid** i bennaeth y ganolfan, neu'r swyddog arholiadau, neu'r cydlynydd sicrhau ansawdd: ...benodi goruchwylwyr i wneud yn siŵr bod yr arholiad yn cael ei gynnal yn unol â'r gofynion canlynol: ...bod **o leiaf un goruchwyliwr fod yn bresennol am bob grŵp o 20 ymgeisydd neu lai sy'n sefyll arholiadau ymarferol [Celf]**.'

Tudalen 18, pwynt 6.4: 'Fel arfer, athro/athrawes Celf a Dylunio fydd yn goruchwylio'r **prawf Celf wedi'i amseru**. Gan y gallai fod gofyn i athro/athrawes Celf a Dylunio roi cymorth technegol i ymgeisydd unigol, gellir defnyddio goruchwylwyr ychwanegol yn ôl ewyllys y swyddog arholiadau er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth yr ymgeiswyr yn cael ei gynnal bob amser.'

Tudalen 30, pwynt 11.2: '**Yn achos arholiadau Celf**, gall ymgeiswyr fynd ag unrhyw astudiaethau ategol paratoadol, dyddiaduron gwaith, nodiadau neu frasluniau y maent wedi'u cynhyrchu ac sydd i'w cyflwyno i'w hasesu ynghyd â'r gwaith a wnaed yn ystod cyfnod y prawf wedi'i amseru i mewn i'r ystafell arholiadau.

Gall ymgeiswyr hefyd fynd â'r gwrthrychau a'r defnyddiau y mae eu hangen i osod grŵp bywyd llonydd.

**Rhaid** i'r goruchwyliwr sicrhau, pan fo ymgeiswyr yn mynd ag astudiaethau ategol paratoadol i mewn i'r ystafell arholiadau, mai eu hastudiaethau eu hunain ydynt.

**Rhaid gwneud yr arholiadau hyn o dan amodau ffurfiol**. Er enghraifft, **ni chaniateir** i ymgeiswyr wrando ar gerddoriaeth.'

Tudalen 32: '**Rhaid i'r goruchwylwyr**: ...atgoffa ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau Celf wedi'u hamserlennu mai eu gwaith nhw yn unig ddylai'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod prawf wedi'i amseru fod. Nid ydynt yn cael cyfathrebu mewn unrhyw ffordd ag ymgeisydd eraill, na gofyn am gymorth gan ymgeisydd arall na'i roi, pan fyddant yn yr

ystafell arholiadau. **(Rhaid cynnal yr arholiad Celf wedi'i amseru dan amodau arholiad ffurfiol.)**'

Tudalen 60: '**Ni all aelodau o staff canolfan, o dan unrhyw amgylchiadau**: ...gyfathrebu â'r ymgeiswyr, (ac eithrio mewn profion Celf wedi'u hamseru... neu wrth gynnal disgyblaeth yn yr ystafell arholiadau). Mae'r cyfyngiad hwn yn berthnasol hefyd i hyfforddi ymgeiswyr, atgoffa ymgeiswyr pa ran(nau) o'r papur cwestiynau i'w hateb neu pa gwestiynau y dylent eu hateb.'

**C23: A ganiateir ymgeiswyr i wrando ar gerddoriaeth neu gael mynediad i'r rhyngrwyd yn ystod y sesiynau o dan oruchwyliaeth?**
**A23:** Ni chaniateir i ymgeiswyr wrando ar gerddoriaeth (gweler uchod). Ni chaniateir i ymgeiswyr gael mynediad i'r rhyngrwyd. Rhaid gwirio pob gwaith paratoadol gan gynnwys pob dyfais storio electronig er mwyn sicrhau mai gwaith paratoadol yn unig sydd wedi'i lwytho ar y cyfleusterau storio sydd i'w defnyddio ar y cyd â chyfrifiadur personol neu liniadur. Gellir defnyddio systemau mewnrwyd mewnol y ganolfan ond i'r mynediad i'r rhyngrwyd gael ei ddiffodd.

**C24: A gaiff ymgeiswyr fynediad i'w gwaith ar ôl i'r sesiynau dan oruchwyliaeth ddechrau?**
**A24:** O ddiwedd y sesiwn dan oruchwyliaeth gyntaf ni chaiff ymgeiswyr fynediad i unrhyw waith paratoadol neu waith canlyniad terfynol y tu allan i'r sesiynau dan oruchwyliaeth. Ar ddiwedd y cyfnod dwys caiff y dysgwyr ddewis, cyflwyno a gwerthuso eu deunyddiau'n barod i'w marcio gan y ganolfan.

**C25: Beth ddylai'r dysgwyr ei wneud yn y 15 awr o dan amodau arholiad, yn enwedig o fewn y teitlau Ffotograffiaeth, Celfyddyd Gain** (gwneud ffilmiau) **ac Astudiaethau Cyd-destunol?**
**A25:** Mae'r prif arholwr wedi cynhyrchu dogfen arall i ateb hyn ond y prif bwynt yw y dylai fod her gyson ar draws pob teitl. Mae'r ddogfen Canllawiau – Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn nodi rhai egwyddorion cyffredinol.

**C26: Oes rhaid i'r ganolfan gofnodi'r 15 awr dan amodau arholiad?**
**A26:** Oes. Cyfrifoldeb pob canolfan yw cofnodi pa sesiynau y mae pob dysgwr yn eu mynychu. I helpu canolfannau mae CBAC wedi cynhyrchu templed mewn dogfen Word. Taflen Amser (Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol).

Efallai bydd canolfannau'n dymuno creu eu system eu hunain er mwyn cofnodi sesiynau ac mae hyn yn dderbyniol i CBAC ond bod y wybodaeth yn y templed wedi'i chynnwys. Yn ogystal gall ymgeiswyr ddefnyddio'r templed hwn fel modd o gynllunio ar gyfer pob sesiwn, fel eu bod yn deall yn union beth maen nhw eisiau ei gyflawni ym mhob bloc o amser.

**C27: Pa arweiniad dylai canolfannau ei roi i ddysgwyr wrth gwblhau Datganiad y Dysgwr?**
**A27:** Mae'n bwysig bod dysgwyr yn deall mai diben pob Datganiad y Dysgwr, i'w gwblhau ar gyfer pob un o'r cydrannau asesu, yw eu galluogi i gyflwyno i eraill y meddyliau a'r gweithredoedd sy'n sail i'w cyflwyniadau. Os ydynt yn mynd ati i wneud hyn fel ymarfer llenwi ffurflenni'n unig, ychydig o werth fydd hyn iddyn nhw neu i unrhyw un sy'n edrych ar eu gwaith.

Mae profiad hir o asesu portffolios UG a Safon Uwch wedi dangos bod gan gyflwyniadau ddiben cryfach ac ymdeimlad mwy eglur o gyfeiriad pan fydd ymgeisydd wedi rhoi amser ac ymdrech i ystyried a dogfennu ei amcanion yn ofalus a chynllunio sut gellid cyflawni'r rhain orau. Mae'n hanfodol, felly, bod y datganiad yn cael ei ystyried yn weithgaredd cynllunio

parhaus, o bosibl wedi'i ddogfennu ar ddechrau'r astudiaeth, wedi'i gloriannu o'r newydd yn ystod y gwaith ac ar ei ddiwedd.

O ganlyniad, bwriad dogfen Datganiad y Dysgwr yw darparu fframwaith defnyddiol i ddysgwyr drefnu eu gwaith ac esbonio hyn i eraill. Fe'i cyflwynir o dan y penawdau ‘Prif Syniad’, ‘Cynllun’, ‘Cyd-destun’ a ‘Myfyrio’. Mae'r adran gyntaf yn galluogi'r dysgwr i esbonio'r prif syniad y mae'r ymateb wedi'i ddatblygu ohono. Ar gyfer yr Ymholiad Creadigol Personol (UG) a'r Ymchwiliad Personol (Safon Uwch) dylai ddangos sut mae'r deunydd pwnc a ddewiswyd ag arwyddocâd personol i'r dysgwr. O ran yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol ar Safon Uwch, bydd yn esbonio sut mae'r ysgogiadau a ddewiswyd wedi'u dehongli. Yn dilyn hyn mae adran lle amlinellir y cynllun cychwynnol, gan gofio y gall fod newidiadau annisgwyl yng nghyfeiriad y gwaith wrth iddo fynd rhagddo. Wedyn gall yr adran hon ddisgrifio newidiadau o'r fath a'r rhesymau drostynt. Mae'r drydedd adran yn gofyn i'r dysgwr ddisgrifio cyd-destun y gwaith, h.y. y dylanwadau arno, ei ddibenion a'i ystyron a bydd yn cynnwys cyfeiriadau megis ffynonellau cyd-destunol ac ymweliadau sydd wedi dylanwadu ar yr astudiaeth. Mae'r adran olaf yn rhoi cyfle i'r dysgwr fyfyrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl ei gwblhau.

**C28: Faint o waith ar gyfer pob uned y dylid ei gyflwyno i'w safoni?**
**A28:** Dylai'r dewis o waith gan ddysgwyr fod yn ddigonol i ddarparu tystiolaeth gadarn i sylw gael ei roi i bob agwedd ar y pedwar Amcan Asesu a thystiolaeth o gyflawniadau gorau'r dysgwyr yn y rhain. Dylai fod tystiolaeth o bob cam <u>arwyddocaol</u> yn y broses greadigol yn ogystal â chanlyniadau o safon. Yn ogystal dylai dysgwyr ddangos eu gallu i fod yn ddethol wrth gyflwyno eu gwaith. Gallai cyfeirio at enghreifftiau ar wefannau fod o gymorth hefyd, gan gofio bod ansawdd yn bwysicach na maint. Bydd cyfeirio at enghreifftiau ar wefannau, yn enwedig rhai a welwyd yn ystod digwyddiadau DPP, yn ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol i athrawon ac i ddysgwyr.

**C29: A gaiff ymgeiswyr gyflwyno'r un gwaith ar gyfer teitlau gwahanol?**
**A29:** Na chânt. Bydd y safonwr yn edrych ar bob uned er mwyn sicrhau ei bod yn gorff o waith gwahanol a gyflwynwyd i'w safoni ar draws teitlau gwahanol. Nid yw unplygrwydd y cymhwyster yn cael ei gynnal os yw canolfannau'n ailgylchu gwaith i'w harnodi yn wahanol. Dylid nodi y gall un ymgeisydd gymryd pob un o'r saith teitl ac na waherddir unrhyw gyfuniadau.

**C30: Oes disgwyl i mi ddilysu popeth y mae dysgwr yn ei gyflwyno fel ei waith ei hun ac os felly, sut gallaf wneud hyn?**
**A30:** Oes, mae hyn o'r pwys mwyaf er mwyn diogelu unplygrwydd pob cyflwyniad. Llofnod yn unig sydd ei angen, ond ni ddylid ymgymryd â hyn yn ysgafn. Ymdriniwyd â hyn ar dudalen 23 y canllaw hwn, ond mae'n werth ailadrodd rhai o'r manylion hynny:

**Dilysu gwaith**
O dan bob amgylchiad, rhaid mai gwaith yr ymgeisydd yn unig heb amheuaeth yw pob darn o waith a gyflwynir i'w asesu. Lle nad yw gwaith wedi'i oruchwylio'n agos, dylai mesurau addas fod yn eu lle er mwyn sicrhau bod natur ac ansawdd y gwaith yn cyfateb i'r hyn a gynhyrchir dan oruchwyliaeth. Gellir defnyddio nifer o strategaethau at y diben hwn, megis:

- gwneud i'r ymgeisydd wneud gwaith tebyg dan oruchwyliaeth agos a chymharu'r safonau â gwaith a gynhyrchwyd heb ei oruchwylio;
- cynnal *viva* gyda'r ymgeisydd i holi am darddiad a datblygiad y gwaith er mwyn pennu a yw'n ddilys;
- gofyn i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth bod gwaith heb ei oruchwylio'n ddilys.

Er mwyn osgoi camddealltwriaeth neu embaras yn ddiweddarach, mae rhai canolfannau'n sefydlu'r strategaethau hyn ar ffurf cytundeb ar ddechrau'r cwrs.

**C31: Sut mae dysgwyr yn labelu eu gwaith?**
**A31:** Mae cyfrifoldeb ar bob canolfan i sicrhau bod modd adnabod gwaith pob dysgwr. Er mwyn helpu canolfannau, mae CBAC wedi cynhyrchu templedi mewn dogfennau Word, fel y gall canolfannau lenwi rhai meysydd cyn eu hargraffu i gyflymu'r broses:

Label (Ymholiad Creadigol Personol)
Label (Ymchwiliad Personol)
Label (Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol)

Efallai bydd canolfannau'n dymuno creu eu system eu hunain er mwyn labelu gwaith ac mae hyn yn dderbyniol i CBAC ond bod y wybodaeth yn y templedi wedi'i chynnwys.

**C32: Ble gallaf ddod o hyd i'r ffiniau graddau o'r flwyddyn flaenorol?**
**A32:** Gallwch hidlo'r cwymplenni yn y wybodaeth am ffiniau graddau er mwyn cael ffiniau graddau unedau o'r flwyddyn flaenorol. Rhaid pwysleisio bod ffiniau graddau'n cael eu haddasu bob blwyddyn ac y gall marcio yn ôl ffiniau graddau blaenorol arwain at siom.

**C33: Sut rydw i'n pennu safonau ar gyfer fy marcio?**
**A33:** Dylai peth o'r cyngor a roddwyd yn yr ateb uchod fod yn ddefnyddiol wrth bennu safonau ar gyfer y fanyleb newydd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos y bydd rhai newidiadau a gyflwynwyd, fel y ffaith mai un uned gwaith cwrs sydd ar gyfer UG a'r amser ychwanegol sydd bellach ar gael ar gyfer y gydran honno, yn arwain at godi safonau. Gallai hyn gael effaith ar safonau ar Safon Uwch a bennir yr haf canlynol. Bydd adborth o'r flwyddyn gyntaf o farcio UG yn ddefnyddiol wrth bennu safonau ar gyfer y Safon Uwch newydd. Yn sicr, ni fydd y safonau'n is nag y maent ar gyfer y fanyleb UG a Safon Uwch bresennol.

Bydd cyfeirio at enghreifftiau ar wefannau o ryw gymorth ac yn enwedig felly os yw'r rhain wedi'u harchwilio'n rhan o ddigwyddiadau DPP. Wrth gyfeirio at enghreifftiau diweddar, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn y band marcio uchaf, cofiwch fod athrawon yn aml yn fwy realistig wrth farcio gwaith ymgeiswyr eraill nag y maen nhw wrth farcio gwaith eu hymgeiswyr eu hunain. Yn ogystal, dylai'r marciau ar frig eithaf yr ystod marcio fod o ansawdd gwirioneddol eithriadol, gan mai lleiafrif y cyflwyniadau sy'n cyrraedd marciau ar y lefel hon.

Cynghorir canolfannau'n gryf i sefydlu a chynnal archif o enghreifftiau er mwyn cael pwyntiau cyfeirio dibynadwy ar gyfer marcio i'r dyfodol. Mae'n hanfodol bod y marciau ar gyfer enghreifftiau o'r fath yn cael eu haddasu'n llawn er mwyn cyd-fynd â'r safonau a ddefnyddir gan safonwyr sy'n ymweld. Gellir defnyddio cyfeiriadau at yr union farciau a roddwyd gan CBAC ac at adrannau perthnasol Adroddiad y Ganolfan at y diben hwn, yn hytrach nag unrhyw adborth llafar gan y safonwr.

**C34: Sut dylwn fynd ati i farcio'r gwaith?**
**A34:** Mae dau brif gwestiwn i'w hystyried wrth asesu cyflwyniadau eich ymgeiswyr. Y cwestiwn cyntaf i roi sylw iddo yw:

1. A yw'r cyflwyniad yn rhoi sylw i bob agwedd ar bob Amcan Asesu?

A'r ail, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, yw

2. Beth yw ansawdd y dystiolaeth hon?

Dylai Rhestri Gwirio'r Amcanion Asesu i Athrawon ac i Ddysgwyr – (yr un strwythur ar gyfer pob uned) fod yn amhrisiadwy wrth adnabod unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a gyflwynwyd. Mae'n bwysig bod yn hollol wrthrychol am hyn a pheidio â dod o dan ddylanwad yr hyn a wyddoch chi am yr ymgeisydd a'i waith. Bydd safonwr sy'n ymweld yn seilio ei farn ar y dystiolaeth a welir yn unig. Felly hefyd, rhaid i farn wrthrychol beidio ag ystyried yn uniongyrchol ymdrech, potensial hysbys neu anawsterau megis problemau iechyd y gall yr ymgeisydd fod wedi dod ar eu traws.

Rhaid i farn gael ei gwneud yn erbyn pob un o'r pedwar Amcan Asesu, gan fod ymgeisydd yn aml yn perfformio'n wahanol ar gyfer AA1, AA2, AA3 ac AA4. Mae sgôr ar wahân yn ofynnol ar gyfer pob un ac mae pob safonwr bob amser yn cynhyrchu marc ar gyfer pob un o'r Amcanion Asesu.

Ar ôl pennu i ba raddau y mae pob rhan o bob Amcan Asesu wedi cael ei chwmpasu, rhaid dod i farn wedyn am y safon a gyflawnwyd ym mhob un. Un o ddibenion canolog asesu mewnol yw cynhyrchu trefn restrol o allu ymgeiswyr. Trwy lwc, yn gyffredinol, mae athrawon yn fwy cywir wrth ddod i farn *gymharol*, h.y. gwneud cymariaethau â gwaith sydd ychydig yn well neu ychydig yn waeth na'r cyflwyniad o dan sylw, nag y maen nhw wrth ddod i farn *absoliwt*, h.y. yn annibynnol ar gymaryddion. Mae'r egwyddor hon yn ddefnyddiol hefyd wrth weithio gyda chydweithwyr o ddisgyblaethau celf a dylunio eraill wrth sefydlu safonau cyffredin (fel arfer cyfeirir at hyn fel cymedroli) ar draws pob canolfan. Yn anffodus, yn aml mae dimensiwn *gwleidyddol* i'r ymarfer hwn, y cyfeirir ato'n gyffredin fel 'bargeinio', ac mae hynny'n aml yn arwain at ystumio safonau. Gellir defnyddio strategaethau rheoli da er mwyn dileu canlyniadau negyddol yr hyn a ddylai fod yn broses ddefnyddiol iawn.

Er mwyn dod at set ddibynadwy a dilys o farciau, bydd y cynlluniau marcio:

Ymholiad Creadigol Personol UG/Ymchwiliad Personol Safon Uwch/Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol Safon Uwch

yn amlwg yn chwarae rhan amhrisiadwy (cyfeirier at y cynllun marcio priodol i'r uned rydych chi'n ei marcio). Hefyd argymhellir eich bod yn cyfeirio at enghreifftiau sydd ar gael ar wefannau CBAC a bocsgolau, yn enwedig os yw'r rhain wedi'u gweld yn rhan o ddigwyddiadau DPP.

Os yw'r drefn restrol wedi'i chynhyrchu'n gywir ac os marciwyd yn realistig, yna ychydig o broblemau ddylai fod gan y safonwr sy'n ymweld wrth wneud unrhyw addasiadau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol.

**C35: Os oes nifer o athrawon/adrannau'n addysgu elfennau neu ardystiadau gwahanol, a ddylai fod tystiolaeth o draws-safoni (cymedroli) cyn i'r safonwr gyrraedd?**
**A35:** Dylai. Os oes gan ganolfannau gofrestriadau ar gyfer mwy nag un teitl neu grwpiau addysgu gwahanol o fewn un teitl yna rhaid bod cymedroli wedi digwydd rhwng athrawon cyn mewnbynnu marciau erbyn **31 Mai**, fel y gall CBAC fod yn hyderus bod cytuno wedi bod ar gydlynu safonau'r ganolfan er mwyn cynhyrchu trefn restrol gyffredinol ar gyfer pob uned ym mhob teitl. Os nad yw cymedroli wedi digwydd, yna rhaid dweud wrth y safonwr pan fydd yn cyrraedd y ganolfan. Gall wedyn benderfynu peidio â safoni'r ganolfan yn allanol tan y bydd cymedroli wedi digwydd. Gellir codir tâl ar y ganolfan am ail ymweliad.

**C36: Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer mewnbynnu marciau i'r wefan ddiogel?**
**A36:** Rhaid cyflwyno marciau'r ganolfan i CBAC erbyn **31 Mai.**

**C37: Sut rydw i'n newid marc os dof o hyd i wall clerigol ar ôl cyflwyno marciau fy nghanolfan trwy'r wefan ddiogel?**
**A37:** Rhaid i'r ganolfan roi gwybod i CBAC ar bapur swyddogol y ganolfan neu gyfeiriad e-bost swyddogol am unrhyw newidiadau i farciau oherwydd gwallau clerigol, gwaith coll, gwaith ychwanegol ac ati. (Cyfrifoldeb y ganolfan yw rhoi gwybod i CBAC.) Rhaid i'r ganolfan roi gwybod i'r safonwr sy'n ymweld am wallau o'r fath a bydd y safonwr wedyn yn newid y gwaith papur priodol ac yn dychwelyd y newidiadau swyddogol i farciau'r ganolfan i CBAC. CBAC fydd yn penderfynu a weithredir y newidiadau hyn i'r marciau ai peidio.

**C38: Beth os caiff gwaith ei golli neu ei ddifrodi neu os yw'r ymgeisydd wedi bod â phroblemau iechyd neu broblemau eraill yn ystod ei gwrs UG/Safon Uwch?**
**A38:** Y peth gorau yw trafod hyn yn gyntaf, yn gynnar, â'r Swyddog Arholiadau yn eich canolfan, gan y gall hyn fod yn berthnasol hefyd i bynciau eraill y mae'r dysgwr wedi bod yn eu hastudio. Os oes angen, gall y Swyddog Arholiadau awgrymu y dylid trafod hyn â swyddog CBAC a fydd yn rhoi cyngor o ran pa weithdrefnau i'w dilyn gan y gall y rhain amrywio yn ôl yr amgylchiadau perthnasol.

**C39: Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer Ystyriaeth Arbennig a Hysbysu am Waith Cwrs Coll?**
**A39:** Rhaid i ganolfannau sydd am eu hystyried am yr uchod lenwi ffurflen berthnasol y Cyd-gyngor Cymwysterau CGC/SC Ffurflen 10 Cais am Ystyriaeth Arbennig a CGC/LCW Ffurflen 15 Hysbysiad o Waith Cwrs Coll. Byddem yn annog canolfannau i ychwanegu nodyn ar bapur y ganolfan yn ychwanegol at y naill neu'r llall neu'r ddwy ffurflen, gan nodi safle'r ymgeisydd o fewn trefn restrol yr holl unedau sydd wedi'u heffeithio. Mewn geiriau eraill, mae'n gymorth mawr wrth ymdrin â'r ceisiadau hyn cael gwybod sut y gallai'r ymgeisydd fod wedi cyflawni yn ôl 'amgylchiadau arferol' heb golled, salwch neu anaf. Yn syml, rhowch fanylion enwau a rhifau ymgeiswyr yn union uwch ben ac o dan yr ymgeisydd dan sylw yn eich ymateb.

Er mwyn i ymgeisydd gael ei ystyried ar gyfer Ystyriaeth Arbennig rhaid i o leiaf 50% o'r cymhwyster fod wedi'i gwblhau.

Er mwyn cael ei ystyried ar gyfer Gwaith Coll, rhaid mai'r ganolfan sydd wedi colli'r gwaith.

**C40: Sut mae'r system safoni'n gweithio?**
**A40:** Yn yr wythnos cyn y tair wythnos pan wneir y safoni, cesglir gwaith byw o nifer o ganolfannau gwahanol a'i arddangos mewn canolfan gynadledda. Yna caiff y gwaith hwn ei farcio'n annibynnol gan dîm o uwch safonwyr sydd ag ehangder profiad yn ogystal â gwybodaeth arbenigol mewn disgyblaethau penodol. Maen nhw'n cyflwyno eu marciau i'r Uwch Arholwr sydd wedyn yn cynnal ymarfer cymedroli, a gynhelir dros ddau ddiwrnod, gyda'r uwch dîm er mwyn dod at set o farciau y cytunwyd arnynt i bob Amcan Asesu ac i bob uned o waith a farciwyd. Dewisir yr unedau er mwyn cwmpasu holl brif deitlau'r fanyleb a dewisir amrediad o feincnodau er mwyn helpu safonwyr i ddiwygio safonau.

Ar y dydd Sadwrn a'r dydd Sul yn union cyn yr ymweliadau safoni, mae'r tîm safoni llawn yn ymgymryd ag ymarfer marcio tebyg. Dewisir y tîm o blith athrawon profiadol sydd wedi ymgeisio i ddod yn safonwyr. Ystyrir cywirdeb eu marcio blaenorol yn eu canolfannau eu hunain yn y broses ddewis.

Yn gyntaf maen nhw'n marcio'n annibynnol, yn cyflwyno eu marciau fel bod marc cymedrig yn cael ei gyfrifo ar gyfer pob uned a chaiff y marciau hyn eu cymharu â'r rhai y cytunodd yr uwch dîm arnynt. Ym mhob achos, bron, mae'r ddwy set o farciau hyn yn hynod agos ac maen nhw'n aml yn union yr un fath. Lle mae gwahaniaethau o ychydig farciau rhwng unedau arbennig, adolygir y rhain gan y tîm cyfan a phennir marciau y cytunir arnynt trwy drafodaeth.

Gall y tîm cyfan o safonwyr gyfeirio at y safonau hyn y cytunwyd arnynt, sy'n fyw yn eu cof, ym mhob canolfan y maen nhw'n ymweld â hi ac maen nhw hefyd yn cael lluniau lliw o'r meincnodau wrth fynd o'r gynhadledd, i'w hatgoffa o'r hyn y maen nhw wedi'i weld. Mae nifer o safonwyr yn tynnu eu lluniau eu hunain hefyd yn ystod y ddau ddiwrnod. Mae pob safonwr yn cael o leiaf un ymweliad gan uwch safonwr sy'n marcio sampl priodol o unedau'n annibynnol. Cyflwynir y ddwy set o farciau i CBAC fel bod modd gwirio safonau marcio. Yn ogystal mae dibynadwyedd pob safonwr yn cael ei wirio, a hynny wedi’i seilio ar gymharu eu marciau â'r safonau y cytunwyd arnynt yng Nghynhadledd y Safonwyr.

Cofnodir marciau'r safonwr ar gyfer pob uned a farciwyd ym mhob canolfan yr ymwelwyd â hi, gyda'r marciau a ddyfarnwyd gan uwch safonwyr, wrth ochr marciau'r ganolfan. Os yw marciau'r ganolfan y tu hwnt i'r goddefiannau, o'u cymharu â'r safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a ddefnyddiwyd gan y safonwr, eir ati i raddio (addasu) marciau. Ystyrir perfformiad marcio pob safonwr yn ofalus cyn addasu marciau canolfannau.

**C41: Oes angen i'r safonwr farcio pob uned pan gofrestrir dysgwyr ar gyfer mwy nag un teitl?**
**A41:** Lle y cofrestrir ymgeiswyr am fwy nag un teitl (a elwir yn gyffredin yn gofrestriadau lluosog) rhaid i'r safonwr weld eu gwaith. Er enghraifft, os cofrestrir ymgeisydd am Decstilau a Dylunio Graffig yna rhaid i'r safonwr weld pob uned ar gyfer pob teitl. Yn ogystal rhaid i'r ymgeisydd sefyll aseiniad gwahanol ar gyfer pob teitl o'r papur cwestiynau Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol. Gellir gweld arddull a fformat y papur cwestiynau yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol.

**C42 Pryd bydd fy nghanolfan yn derbyn dyddiad ac amser yr ymweliad safoni a pha waith papur sydd ei angen pan fydd y safonwr yn cyrraedd fy nghanolfan i farcio'r gwaith?**
**A42:** Ddiwedd mis Mai neu ddechrau mis Mehefin bydd eich Swyddog Arholiadau'n derbyn e-bost sy'n nodi enw'r Safonwr, dyddiad/amser yr ymweliad a'r cofrestriadau a gaiff eu marcio. Erbyn yr adeg hon dylai pob marc fod wedi cael ei gyflwyno i CBAC trwy'r wefan ddiogel a bydd canolfannau'n ymwybodol o waith pa ymgeiswyr a safonir ar gyfer pob uned.

Ar ôl cyrraedd y ganolfan bydd y safonwr yn gofyn am y canlynol:

- Copi caled o daflenni marciau electronig y ganolfan o'r wefan ddiogel
- Taflenni Marcio’r Ymgeisydd (Ymholiad Creadigol Personol)
  Taflenni Marcio’r Ymgeisydd (Ymchwiliad Personol)
  Taflenni Marcio’r Ymgeisydd (Aseiniad wedi’i Osod yn Allanol)
  At ddibenion asesu mewnol ac os yw'r athro'n dymuno cyfleu gwybodaeth ychwanegol ar ffurf anodi. Mae fformatau eraill yn dderbyniol megis taenlenni Excel ond bod manylion yr Amcanion Asesu wedi'u darparu ar gyfer pob uned.
- Datganiad y Dysgwr (Ymholiad Creadigol Personol)
  Datganiad y Dysgwr (Ymchwiliad Personol)
  Datganiad y Dysgwr (Aseiniad wedi’i Osod yn Allanol)

**Q43: A gaf i drafod y marciau â'r safonwr?**
**A43:** Ni fydd y safonwyr yn gallu trafod y marciau y maent wedi'u dyfarnu mewn unrhyw ganolfan oherwydd y ffaith y gall eu marciau gael eu haddasu. Gwneir hyn gan ddefnyddio tystiolaeth o'u marciau yng Nghynhadledd y Safonwyr a thraws-safoni sampl o'u marciau pan oedden nhw ar daith gan Uwch Safonwr.

At hynny, dywed Amodau Cydnabyddiaeth Cyffredinol y rheoleiddwyr: 'Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau nad yw'n cyfathrebu i ganolfan neu ddysgwr gadarnhad o unrhyw farc ar gyfer asesiad, neu unrhyw newidiadau iddo cyn i'r canlyniad hwnnw gael ei gyhoeddi'.
Fel corff dyfarnu mae gan CBAC ddyletswydd i gydymffurfio â'r rheoliad hwn, ac fel rhan o'u hyfforddiant, dywedir wrth safonwyr am sicrhau bod eu marciau'n gyfrinachol ac na ddylent ar unrhyw gyfrif roi unrhyw awgrym am y canlyniadau i'r athro.

Fodd bynnag, anogir safonwyr i drafod pwyntiau cyffredinol sy'n ymwneud â'r asesiad a nodi'n fras y pethau sy'n nodweddu'r sampl. Hefyd fe'u hanogir i gynnig cyngor defnyddiol; er enghraifft, mewn perthynas â nodi a dangos yr Amcanion Asesu a/neu egluro'r fanyleb lle y bo'n briodol.

Rhaid i'r safonwyr gadw popeth yn hollol gyfrinachol trwy gydol y cyfnod safoni a hyd derfyn amser ymholiadau am ganlyniadau (YAG), sef 20 Medi. Ni ddylid trafod perfformiad canolfannau y tu hwnt i gwblhau adroddiad y ganolfan ar gyfer CBAC. Mae'r safonwr yn darparu adroddiad manwl am y ganolfan, sydd ar gael i ganolfannau trwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau. Dylai adroddiad y ganolfan ychwanegu at yr adborth llafar a dylai gynnig:

- crynodeb o arsylwadau'r safonwr, ar ffurf sylwadau ysgrifenedig a ystyriwyd yn ofalus mewn perthynas â'r Amcanion Asesu a gyhoeddwyd a meini prawf o'r fanyleb;
- adborth uniongyrchol i ganolfannau ar berfformiad ymgeiswyr mewn ffordd berthnasol ac adeiladol;
- gwybodaeth benodol am sut gallai ymgeiswyr gyflawni ennill marciau gwell.

**C44: Pam byddai fy marciau'n cael eu newid gan y bwrdd arholi?**
**A44:** Mae pob uned yn cael ei marcio'n fewnol a'i safoni'n allanol ac mae cyfrifoldeb ar CBAC fel corff dyfarnu i sicrhau bod yr holl waith yn cael ei farcio i safonau cenedlaethol. Gwneir hyn trwy ymarferion cymaroldeb gyda chyrff dyfarnu eraill a phroffiliau a gafwyd gan y safonwyr yn ystod cynhadledd y safonwyr ac mewn un ganolfan yr ymwelwyd â hi tra oedden nhw ar daith. Gwneir addasiadau i farciau canolfan pan fydd CBAC yn canfod eu bod y tu allan i baramedrau a osodwyd. Gellir addasu marciau i fyny ac i lawr.

**C45: Beth allaf ei wneud os nad wyf yn cytuno â'r marciau a ddyfarnwyd i'm dysgwyr?**
**A45:** Dylai canolfannau sy'n dymuno gwneud ymholiadau am ganlyniadau (YAG) wneud cais ar-lein trwy'r wefan ddiogel. Rhaid i'r cais hwn gael ei dderbyn erbyn 20 Medi. Darllenwch y dull gweithredu yn fanwl cyn gwneud y penderfyniad hwn gan fod Gwasanaeth 3 yn golygu ailfarcio'n llwyr y sampl wreiddiol gyfan a safonwyd yn llwyr (dyma'r rheswm pam na ddylai ymgeiswyr gael mynediad i'w gwaith ar ôl dyddiadau cwblhau canolfannau). Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael ar gyfer unrhyw uned lle derbyniwyd marciau'r ganolfan heb eu newid. Bydd cost y gwasanaeth hwn oddeutu £310 waeth faint o unedau sydd ym mhob manyleb. Noder na chodir unrhyw dâl os bydd marciau'r ganolfan yn cael eu hadfer. Nid yw cysyniad yr ymgeisydd yn ofynnol ar gyfer Gwasanaeth 3 oherwydd gall fod marciau'r ymgeisydd yn gostwng ond efallai **NA** fydd ei raddau pwnc yn gostwng yn y gyfres o dan sylw. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar ein gwefan o dan Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau.

**C46: UCAS**
**A46:** Mae UG a Safon Uwch yn denu pwyntiau UCAS. I gael rhagor o wybodaeth am bwyntiau UCAS dilynwch y ddolen hon. https://www.ucas.com/sites/default/files/new-tariff-tables.pdf

**C47: Beth yw'r trefniadau asesu ar gyfer ailsefyll?**
**A47:** Mae modd ailsefyll yn ystod oes y cymwysterau newydd.
Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.
Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.
Bydd Uned 1 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2016.
Bydd Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2017.
**DIM OND UN WAITH** y mae hawl gan ymgeiswyr i ailsefyll unedau cyn ardystio'r cymhwyster, a'r canlyniad gwell yn cyfrannu at y cymhwyster. Bydd oes y canlyniadau uned unigol, cyn ardystio'r cymhwyster, ond yn cael ei chyfyngu gan oes y fanyleb ei hun.
Gall ymgeisydd ailsefyll y cymhwyster cyfan fwy nag unwaith.